Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
82/2021
DYDDIAD CYHOEDDI:
15/12/2021

# Astudiaeth Delphi i Ddeall yr Opsiynau sydd ar gael a fydd yn helpu i Ganfod Effaith COVID-19 ar Blant o dan 5 oed, Ymdrin â'r Effaith honno, neu ei Lliniaru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-467-1

Teitl: Astudiaeth Delphi i Ddeall yr Opsiynau sydd ar gael a fydd yn helpu i Ganfod Effaith COVID-19 ar Blant o dan 5 oed, Ymdrin â'r Effaith honno, neu ei Lliniaru

Awdur(on): Dr Jacky Tyrie, Dr Cathryn Knight, Margarida Borras

Adroddiad Ymchwil Llawn: Turie, J. Knight, C. Borras, M (2021); Astudiaeth Delphi i Ddeall yr Opsiynau sydd ar gael a fydd yn helpu i Ganfod Effaith COVID-19 ar Blant o dan 5 oed, Ymdrin â'r Effaith honno, neu ei Lliniaru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 82/2021

Ar gael yn: https://llyw.cymru/astudiaeth-delphi-ar-effaith-covid-19-ar-blant-dan-5-oed

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Faye Gracey

Is-adran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: trafodgofalplant@llyw.cymru

# Tabl o'r Cynnwys


1. Crynodeb gweithredol ....................5

2. Cyflwyniad i'r Ymchwil ....................14

Methodoleg Delphi ....................14

Patrwm yr Ymchwil ....................14

3. Rhan Un: Effaith COVID-19 ar blant o dan bump oed ....................21

Dull ....................21

Canfyddiadau ....................22

4. Rhan Dau: Strategaethau a chefnogaeth i ymdrin ag effaith niweidiol COVID-19 ar blant o dan 5 oed ....................34

Dull ....................34

Canfyddiadau ....................35

5. Canfyddiadau'r Arolwg Ymarferwyr ....................44

6. Crynodeb: Strategaethau a chefnogaeth i ymdrin ag effaith niweidiol COVID-19 ar blant o dan 5 oed ....................52

7. Casgliadau ....................53

8. Rhestr Atodiadau ....................56

9. Cyfeiriadau ....................87

# Tablau

Tabl 1 : Grwpiau demograffig o blant yr effeithiwyd fwyaf arnynt gan COVID-19 ..... 8
Tabl 2: Y strategaethau yn y safle uchaf er mwyn lliniaru effaith niweidiol ar ddatblygiad gwybyddol ..... 10
Tabl 3: Y strategaethau yn y safle uchaf i liniaru'r effaith niweidiol ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol ..... 11
Tabl 4: Y strategaethau yn y safle uchaf ar gyfer lliniaru effaith niweidiol ar ddatblygiad iaith a lleferydd ..... 12
Tabl 5: Y strategaethau yn y safle uchaf i liniaru effaith niweidiol ar ddatblygiad corfforol ..... 13
Tabl 6 Cyfranogwyr a recriwtiwyd yng nghylchoedd 1, 2 a 3 ..... 16
Tabl 7: Grwpiau sosio-ddemograffig ..... 21
Tabl 8: Eitemau lle na chafwyd consensws ..... 23
Tabl 9: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad Gwybyddol – Ymarfer ac Addysgeg ..... 36
Tabl 10: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad Gwybyddol – Teulu a Chymuned ..... 37
Tabl 11: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad gwybyddol – Strategol: Cyllid a Darparu Adnoddau ..... 37
Tabl 12: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol – Ymarfer ac addysgeg ..... 38
Tabl 13: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol – Teulu a chymuned ..... 38
Tabl 14: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol – Strategol: Cyllid a darparu adnoddau ..... 39
Tabl 15: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad iaith a lleferydd – Ymarfer ac addysgeg ..... 40
Tabl 16: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad iaith a lleferydd – Teulu a chymuned ..... 40

Tabl 17: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad iaith a lleferydd – Strategol: Cyllid a darparu adnoddau ..............................41
Tabl 18: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad corfforol – Ymarfer ac addysgeg ..........................................................................42
Tabl 19: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad corfforol – Rhieni a Theuluoedd ..........................................................................42
Tabl 20: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad corfforol – Cymdeithas a’r awyr agored..............................................................43
Tabl 21: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad corfforol – Strategol: Cyllid a darparu adnoddau ................................................43
Tabl 22: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad gwybyddol – Ymarfer ac addysgeg ...................................................44
Tabl 23: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad gwybyddol – Teulu a chymuned ........................................................45
Tabl 24: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad gwybyddol – Strategol: Cyllid a darparu adnoddau ...........................45
Tabl 25: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol – Ymarfer ac addysgeg .........................46
Tabl 26: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol – Teulu a chymuned ..............................46
Tabl 27: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol – Strategol: Cyllid a Darparu Adnoddau 47
Tabl 28: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad iaith a lleferydd – Ymarfer ac addysgeg.....................................................48
Tabl 29: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad iaith a lleferydd – Teulu a chymuned .........................................................48
Tabl 30: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad iaith a lleferydd – Strategol: Cyllid a darparu adnoddau ..............................49
Tabl 31: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad corfforol – Ymarfer ac addysgeg ...................................................................50
Tabl 32: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad corfforol – Rhieni a Theuluoedd ...................................................................50

Tabl 33: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad corfforol – Cymdeithas a’r awyr agored....51
Tabl 34: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad corfforol – Strategol: Cyllid a darparu adnoddau....51

# Ffigurau

Ffigur 1: Cylchoedd yn pennu’r strategaethau ar gyfer lliniaru effaith niweidiol COVID-19....9
Ffigur 2: Cynnwys yr arolwg Delphi....15
Ffigur 3 : Rolau Arbenigwyr Cylch 1....17
Ffigur 4 : Rolau Arbenigwyr Cylch 2....18
Ffigur 5 : Rolau Arbenigwyr Cylch 3....18
Ffigur 6 : Lleoliadau Ymarferwyr....19
Ffigur 7 : Rôl Ymarferwyr....20
Ffigur 8: Effaith gyffredinol....24
Ffigur 9: Yr effaith ar grwpiau oedran....25
Ffigur 10: Effaith ar Ddatblygiad gwybyddol....26
Ffigur 11: Effaith ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol....28
Ffigur 12: Effaith ar ddatblygiad iaith a lleferydd....30
Ffigur 13: Effeithiau ar ddatblygiad corfforol....31
Ffigur 14: Cylchoedd yn pennu’r strategaethau i liniaru effaith niweidiol COVID-19....34

# 1. Crynodeb gweithredol

## Cefndir

1.1 Ni ellir tanbrisio pwysigrwydd blynyddoedd cynharaf bywyd plentyn, ac mae tystiolaeth arhydol yn awgrymu bod profiadau cynnar yn gallu dylanwadu ar ganlyniadau plant i mewn i oedolaeth (Melhuish, 2016; Sylva, 2010; Goodman & Sianesi, 2005). Cafwyd bod profiadau bywyd yn y blynyddoedd cynnar yn effeithio ar ystod o feysydd datblygiadol eang, gan gynnwys: canlyniadau addysgol (Sylva, 2010), datblygiad gwybyddol (Lloyd & Hertzman, 2010), datblygiad cymdeithasol (Sylva, 2010) a datblygiad niwrolegol (Shonkoff, 2016; Bernier et al., 2016).

1.2 Amcangyfrifwyd bod rhyw 85,000 o blant yn mynychu lleoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig (Arolygiaeth Gofal Cymru), tra bod rhyw 70,000 yn mynychu lleoliadau addysg (Llywodraeth Cymru 2020), sy'n creu cyfanswm o ryw 155,000 o blant 5 oed a than hynny yn mynychu lleoliadau ECEC cyn pandemig COVID-19. Ar sail amcangyfrifon poblogaeth canol y flwyddyn yn 2020, roedd poblogaeth y plant o dan 5 oed yn 160,000[1], sy'n awgrymu bod tua 77% o'r holl blant 0-5 oed wedi profi rhyw fath o ddarpariaeth ECEC yn ystod y flwyddyn cyn pandemig COVID-19. Gan fod rhyw dri chwarter o'r plant o dan 5 oed yng Nghymru yn mynychu lleoliadau ECEC, mae'n debygol bod COVID wedi cael effaith fawr ar fynediad y demograffig hwn i ECEC a'u profiad ohono. Gofynnwyd i leoliadau gofal plant a chwarae gyfyngu'r ddarpariaeth i blant agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol yn unig rhwng 23 Mawrth a 21 Mehefin 2020, ac nid oeddent yn gweithredu fel arfer, tra bod y ddarpariaeth mewn ysgolion a gynhelid wedi cyfyngu mynediad i safleoedd ysgol am gyfnod o ryw dri mis yn haf 2020, ac yna eto am ddeufis o fis Ionawr 2021 i blant yn y Cyfnod Sylfaen.

[1] Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU

1.3 Mae ymchwil ar brofiadau staff ECEC yn 2020 yn y Deyrnas Unedig (Ofsted, 2020; Hunnikin et al, 2020) a data sy'n dod i'r amlwg o waith ymchwil a wnaed yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2020 (Tyrie et al., 2021), yn tystio i effaith y pandemig ar leoliadau ECEC. O ganlyniad i'r pandemig, mae bywydau plant wedi cael eu newid ac wedi wynebu amharu diamheuol (Estyn 2021, Dodd, Westbrook, a Lawrence, 2020; Bryant, Oo a Damian, 2020; Comisiynydd Plant Cymru, 2021; Ghosh et al., 2020). Er ei fod yn glir bod pandemig COVID-19 wedi newid profiadau plant, ar hyn o bryd tystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael sy'n archwilio hyd a lled yr effaith hon ar fywydau plant (gweler Ofsted, 2020 ac Estyn 2021), demograffeg y plant sydd wedi dioddef yr effaith negyddol fwyaf, a'r ymyriadau y gellid eu rhoi ar waith i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol.

1.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r gwaith ymchwil hwn er mwyn archwilio sut mae canfod effaith COVID-19 ar blant o dan 5 oed, ymdrin â'r effaith honno, neu ei lliniaru. Dyma oedd amcanion allweddol yr ymchwil, a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Hydref 2021:

1. **Effaith:** Sicrhau consensws ynghylch effaith COVID-19 ar blant o dan 5
2. **Gwahaniaethau**: Canfod gwahaniaethau o ran effaith rhwng grwpiau sosio-ddemograffig
3. **Cefnogaeth**: Canfod strategaethau a chefnogaeth a allai ymdrin ag effeithiau niweidiol COVID-19 ar blant o dan 5
4. **Cyfleoedd**: Canfod cyfleoedd i wneud yn fawr o gynnal a/neu estyn effeithiau cadarnhaol, os oes rhai.

## Dull

1.5 Defnyddiwyd astudiaeth Delphi ar gyfer y gwaith ymchwil hwn. Dull consensws yw methodoleg Delphi, lle mae cyfranogwyr yn ymateb i gylchoedd o arolygon. Mae'n casglu barn grwpiau ar ffurf proses iteraidd o ateb cwestiynau. Ar ddiwedd pob cylch, caiff yr ymatebion eu crynhoi a'u hailddosbarthu i'w trafod yn y cylch nesaf. Trwy broses o gyfuno sy'n galw am

ganfod tueddiadau cyffredin ac archwilio elfennau ymylol, deuir i gonsensws. Yn yr achos hwn, y nod oedd defnyddio dull Delphi i sefydlu consensws ar draws grŵp o arbenigwyr ym maes plentyndod cynnar ar draws 3 chylch o arolygon.

1.6 Canfuwyd cyfranogwyr gan y tîm ymchwil a grŵp cynghori ymchwil fel arbenigwyr ym maes addysg a datblygiad plentyndod cynnar (e.e. trwy awgrymiadau gan swyddogion Llywodraeth Cymru, neu trwy eu cyhoeddiadau ynghylch y pwnc hwn). Roedd y cyfranogwyr yn dod o dri maes arbenigedd gwahanol: academyddion (cenedlaethol a rhyngwladol), arbenigwyr o sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol (Cymru), ac ymarferwyr arbenigol (Cymru). Cwblhaodd 75 o gyfranogwyr arbenigol arolwg 1, cwblhaodd 52 arolwg 2 a chwblhaodd 39 arolwg 3.

1.7 Ochr yn ochr â lansio cylch 3 o’r astudiaeth Delphi, anfonwyd arolwg hefyd at ymarferwyr oedd yn gweithio mewn lleoliadau ECEC i gasglu eu barn ar y nodau ymchwil ‘cefnogaeth’ a ‘chyfleoedd’. Cwblhaodd 378 o ymarferwyr yr arolwg ychwanegol hwn.

1.8 Rhannwyd pob arolwg yn 2 ran. Roedd Rhan 1 yn gofyn cyfres o gwestiynau meintiol graddfa Likert, yn canolbwyntio ar farn yr arbenigwyr ynghylch effaith (gadarnhaol a negyddol) COVID-19 ar blant o dan bump oed, rhennir hynny yn ôl grŵp sosio-ddemograffig ac oedran, ac yn ôl parthau datblygiad. Roedd Rhan 2 o’r arolwg yn ymdrin ag awgrymiadau’r arbenigwyr ynghylch dulliau y gellid eu defnyddio i ymdrin ag effaith niweidiol COVID-19 ar blant o dan 5.

Mae’r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn darparu barn arbenigwyr.

### Canlyniadau

*Rhan 1: Barn arbenigwyr ar effaith COVID-19 ar blant o dan 5*

1.9 Ar ôl 2 gylch o arolygon Delphi daeth yr arbenigwyr i gonsensws mai’r grwpiau demograffig canlynol fyddai’n dioddef yr effaith negyddol fwyaf yn sgîl pandemig COVID-19:

**Tabl 1 : Grwpiau demograffig o blant yr effeithiwyd fwyaf arnynt gan COVID-19**

| Grŵp demograffig | Parth Datblygiad yr effeithiwyd arno |
|---|---|
| Plant sydd wedi dioddef profedigaeth oherwydd COVID-19 | Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol<br>Datblygiad gwybyddol<br>Datblygiad iaith a lleferydd |
| Plant ag angen dysgu ychwanegol / angen addysgol arbennig / anabledd / anhawster dysgu | Datblygiad iaith a lleferydd<br>Datblygiad gwybyddol<br>Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol<br>Datblygiad corfforol a iechyd |
| Plant o deuluoedd sydd ag incwm isel neu sy'n byw mewn tlodi | Datblygiad iaith a lleferydd<br>Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol<br>Datblygiad gwybyddol<br>Datblygiad corfforol |
| Plant y mae eu rhieni wedi dal COVID-19 hir | Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol<br>Datblygiad corfforol a iechyd |


1.10 At ei gilydd, credai'r cyfranogwyr arbenigol mai datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant o dan 5 oed fyddai'n dioddef yr effaith negyddol fwyaf yn sgîl COVID-19. Yn dilyn hynny roedd datblygiad iaith a lleferydd, datblygiad corfforol a iechyd, ac yn olaf, datblygiad gwybyddol. Ar ben hynny, credai'r arbenigwyr mai plant 4-5 oed fyddai'n dioddef yr effaith negyddol fwyaf oherwydd COVID-19, ac y byddai'r effaith negyddol yn lleihau wrth i oed y plentyn ostwng.

1.11 Ychydig iawn o'r cyfranogwyr oedd yn credu bod effaith gadarnhaol i bandemig COVID-19 ar unrhyw grŵp sosio-ddemograffig, grŵp oed neu faes datblygiad.

*Rhan 2: strategaethau i liniaru effaith niweidiol COVID-19*

1.11.1 Yng nghylch 1 awgrymodd yr arbenigwyr nifer o strategaethau i liniaru effaith niweidiol COVID-19, yng nghylch 2 buon nhw'n pleidleisio ar y 1/3 uchaf o strategaethau roedden nhw'n credu fyddai'n fwyaf effeithiol. Yna, yng nghylch 3, gofynnwyd i'r cyfranogwyr bleidleisio ar y strategaethau roedden nhw'n credu fyddai'n fwyaf effeithiol, gweler esboniad pellach yn ffigur 1.

**Ffigur 1: Cylchoedd yn pennu'r strategaethau ar gyfer lliniaru effaith niweidiol COVID-19**




**Arolwg Ymarferwyr**

1.12 Hefyd gofynnwyd i ymarferwyr raddio'r 1/3 uchaf o'r strategaethau a awgrymwyd gan arbenigwyr yng nghylch 2 o'r Astudiaeth Delphi. Rhoddwyd y strategaethau canlynol yn y safle uchaf gan yr ymarferwyr ar gyfer pob maes datblygiad:

1.13 Mae'r canlynol yn dangos y strategaethau a raddiwyd yn y safle uchaf ar gyfer pob maes datblygiad gan y cyfranogwyr arbenigol a'r ymarferwyr:

**Tabl 2: Y strategaethau yn y safle uchaf er mwyn lliniaru effaith niweidiol ar ddatblygiad gwybyddol**

| Strategaeth yn targedu… | Y strategaeth a roddwyd yn y safle uchaf gan gyfranogwyr arbenigol Delphi | Y strategaeth oedd yn y safle uchaf gan Ymarferwyr |
|---|---|---|
| Ymarfer ac Addysgeg yn ECEC | Sicrhau bod yr amgylchedd yn cefnogi chwarae (gan gynnwys chwarae cymdeithasol, chwarae o dan do ac yn yr awyr agored) | Llai o ffocws ar ddysgu ffurfiol (neu ddal i fyny) a mwy ar chwarae annibynnol ac archwilio (er enghraifft, rhannau rhydd, chwarae, ffantasi, siarad a gwrando a gweithgareddau creadigol fel tynnu lluniau) |
| Teulu a chymuned | Cefnogi amgylchedd cadarnhaol yn y cartref | Cefnogi amgylchedd cadarnhaol yn y cartref |
| Strategol: Cyllid a darparu adnoddau | Cynyddu cyfleoedd Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar i bob plentyn; cefnogi mynediad cyffredinol yn hytrach nag wedi'i dargedu (e.e. yr holl blant sydd wedi cael eu pen-blwydd yn 2 oed a'r plant 3 oed i gael mynediad i gyllid) | Cynyddu cyfleoedd Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar i bob plentyn; cefnogi mynediad cyffredinol yn hytrach nag wedi'i dargedu (e.e. yr holl blant sydd wedi cael eu pen-blwydd yn 2 oed a'r plant 3 oed i gael mynediad i gyllid) |

**Tabl 3: Y strategaethau yn y safle uchaf i liniaru'r effaith niweidiol ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol**

| **Strategaeth yn targedu…** | **Y strategaeth a roddwyd yn y safle uchaf gan gyfranogwyr arbenigol Delphi** | **Y strategaeth oedd yn y safle uchaf gan Ymarferwyr** |
|---|---|---|
| Ymarfer ac Addysgeg yn ECEC | Osgoi agenda 'dal i fyny' neu roi pwysau ar blant | Creu ymdeimlad o berthyn i blant |
| Teulu a chymuned | Chwarae yn y gymdogaeth ac ymyriadau cymorth i deuluoedd | Cefnogi teuluoedd yn ariannol ac yn emosiynol â chymorth rhianta o safon uchel |
| Strategol: Cyllid a darparu adnoddau | Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o Safon Dda | Mwy o gyllid er mwyn i bob plentyn gael mynediad i Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o safon uchel |

**Tabl 4: Y strategaethau yn y safle uchaf ar gyfer lliniaru effaith niweidiol ar ddatblygiad iaith a lleferydd**

| **Strategaeth yn targedu…** | **Y strategaeth a roddwyd yn y safle uchaf gan gyfranogwyr arbenigol Delphi** | **Y strategaeth oedd yn y safle uchaf gan Ymarferwyr** |
|---|---|---|
| Ymarfer ac Addysgeg yn ECEC | Amgylchedd cefnogol, digynnwrf, yn rhoi amser i blant siarad – heb eu rhuthro. | Amgylchedd cefnogol, digynnwrf, yn rhoi amser i blant siarad – heb eu rhuthro. |
| Teulu a chymuned | Cefnogi rhieni i alluogi plant i ddysgu iaith a lleferydd gartref e.e. cyswllt llygad; rhyngweithio manwl; storïau a rhigymau | Cefnogi rhieni i alluogi plant i ddysgu iaith a lleferydd gartref e.e. cyswllt llygad; rhyngweithio manwl; storïau a rhigymau |
| Strategol: Cyllid a darparu adnoddau | Cyllid pellach a mynediad cyffredinol i Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o safon uchel ar hyd y flwyddyn | Sicrhau bod therapi iaith a lleferydd ar gael fel ymyrraeth gynnar (yn achos y Gymraeg a'r Saesneg) |

**Tabl 5: Y strategaethau yn y safle uchaf i liniaru effaith niweidiol ar ddatblygiad corfforol**

| Strategaeth yn targedu… | Y strategaeth a roddwyd yn y safle uchaf gan gyfranogwyr arbenigol Delphi | Y strategaeth oedd yn y safle uchaf gan Ymarferwyr |
|---|---|---|
| Ymarfer ac Addysgeg yn ECEC | Annog a chefnogi cyfleoedd chwarae o safon uchel sydd heb eu strwythuro ac amser i archwilio | Datblygu hyder plant a'u parodrwydd i gymryd risgiau |
| Rhieni a theuluoedd | Digwyddiadau a gweithgareddau am ddim mewn lleoliadau / mannau lleol er mwyn i blant fedru profi amgylcheddau newydd a datblygu sgiliau corfforol | Digwyddiadau a gweithgareddau am ddim mewn lleoliadau / mannau lleol er mwyn i blant fedru profi amgylcheddau newydd a datblygu sgiliau corfforol |
| Cymdeithas a'r awyr agored | Annog oedolion a phlant i chwarae yn yr awyr agored ac mewn amgylcheddau naturiol | Annog oedolion a phlant i chwarae yn yr awyr agored ac mewn amgylcheddau naturiol |
| Strategol: Cyllid a darparu adnoddau | Mynediad cyffredinol at addysg plentyndod cynnar o safon uchel gyda dysgu seiliedig ar chwarae mewn amgylchedd awyr agored/byd natur | Mynediad cyffredinol at addysg plentyndod cynnar o safon uchel gyda dysgu seiliedig ar chwarae mewn amgylchedd awyr agored/byd natur |

**Casgliadau**

1.14 Mae'r astudiaeth hon wedi dangos canfyddiadau arbenigwyr o'r grwpiau sosio-ddemograffig y mae COVID-19 wedi cael yr effaith negyddol fwyaf arnynt. Ymhellach, mae wedi darparu persbectif arbenigwyr ac ymarferwyr ar y strategaethau mwyaf effeithiol i liniaru effaith niweidiol COVID-19.

## 2. Cyflwyniad i'r Ymchwil

2.1 Nod yr astudiaeth hon oedd sicrhau consensws ynghylch syniadau i ganfod unrhyw effeithiau niweidiol gan COVID-19 ar iechyd, llesiant, a datblygiad plant cyn oed ysgol, ymdrin â'r effeithiau hynny, neu eu lliniaru. Gwnaed hynny gan ddefnyddio'r amcanion allweddol canlynol:

- Effaith: Sicrhau consensws ynghylch effaith COVID-19 ar blant o dan 5
- Gwahaniaethau: Canfod gwahaniaethau o ran effaith rhwng grwpiau sosio-ddemograffig
- Lliniaru: Canfod strategaethau a chefnogaeth a allai ymdrin ag effeithiau niweidiol COVID-19 ar blant o dan 5
- Cyfleoedd: Canfod cyfleoedd i wneud yn fawr o gynnal a/neu estyn effeithiau cadarnhaol, os oes rhai.

**Methodoleg Delphi**

2.2 Dull consensws yw methodoleg Delphi lle mae'r cyfranogwyr yn ymateb i gylchoedd o arolygon. Yn yr achos hwn, y nod oedd defnyddio dull Delphi i sicrhau consensws ar draws grŵp o arbenigwyr ym maes plentyndod cynnar. Ar ôl pob cylch, gall y cyfranogwyr ailasesu eu hatebion ar sail y canlyniadau dienw a grynhowyd o'r cylch blaenorol, ac ymateb eto i'r eitemau lle na chafwyd consensws.

2.3 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau Cylchoedd 1, 2 a 3 o'r Astudiaeth Delphi hon. Casglwyd data gan ddefnyddio arolwg ar-lein, a defnyddiwyd platfform arolygon Qualtrics i'w cynnal. Platfform arolygon diogel ar-lein yw hwn, y mae Prifysgol Abertawe yn tanysgrifio iddo.

**Patrwm yr Ymchwil**

2.4 Dengys Ffigur 2 sut rhannwyd yr arolwg yn ddwy ym mhob cylch. Ym mhob arolwg ceir dwy ran – Rhan 1 yn edrych ar effaith COVID-19 ar wahanol grwpiau demograffig, tra bod Rhan 2 yn edrych ar sut gellid lliniaru unrhyw effeithiau negyddol a gafodd COVID-19 ar blant o dan 5 oed.

**Ffigur 2: Cynnwys yr arolwg Delphi**

| Arolwg 1 | | Arolwg 2 | | Arolwg 3 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan 1** – Effaith Covid-19 ar blant o dan 5 oed. Sicrhau ConsenswS (1) | **Rhan dau** – Ymdrin ag effaith niweidiol COVID-19 ar blant o dan 5 oed neu liniaru'r effaith honno. Cynhyrchu Syniadau | **Rhan 1** – Effaith Covid-19 ar blant o dan 5 oed. Sicrhau Consensws (2) | **Rhan dau** – Ymdrin ag effaith niweidiol COVID-19 ar blant o dan 5 oed neu liniaru'r effaith honno. Sicrhau Consensws (1) | **Rhan 1** – Effaith Covid-19 ar blant o dan 5 oed. Sicrhau Consensws (3) | **Rhan dau** – Ymdrin ag effaith niweidiol COVID-19 ar blant o dan 5 oed neu liniaru'r effaith honno. Sicrhau Consensws (2) |

*Cyfranogwyr*

2.5 Elfen allweddol bwysig o bob astudiaeth Delphi lwyddiannus yw ymwneud rhanddeiliaid a phorthgeidwaid â phob cam o'r broses. Defnyddiodd yr astudiaeth nifer o ddulliau samplu, gan gynnwys samplu cyfleoedd (Cohen et al., 2018) gyda ffocws ar yr arbenigwyr hynny oedd eisoes yn hysbys i'r tîm ymchwil, gyda samplu pelen eira yn dilyn (Bryman, 2016) er mwyn cael mynediad at y rhwydwaith academaidd ehangach o arbenigwyr, gyda chefnogaeth samplu pwrpasol, lle'r eir ati i ganfod arbenigwyr trwy allbynnau ymchwil a gwefannau proffesiynol.

2.6 Er nad oes maint sampl wedi'i bennu ar gyfer astudiaeth Delphi, awgrymwyd y byddai isafswm y cyfranogwyr yn amrywio o 10 i 18 fesul maes arbenigedd (Okoli & Pawlowski, 2004). Nod yr astudiaeth hon oedd recriwtio rhwng 30 a 54 o arbenigwyr. Byddai'r cyfranogwyr arbenigol yn dod o dri maes arbenigedd gwahanol: academyddion (cenedlaethol a rhyngwladol), arbenigwyr o sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol (Cymru), ac ymarferwyr arbenigol (Cymru).

*Demograffeg Delphi*

2.7 Mae Tabl 6 yn cyflwyno dadansoddiad o niferoedd y cyfranogwyr. Gwahoddwyd cyfanswm o 237 o gyfranogwyr, a chytunodd 101 i gymryd rhan yn yr astudiaeth, sy'n cynrychioli 43% o gyfanswm y cyfranogwyr a wahoddwyd. Cyflawnodd 75 o


gyfranogwyr Gylch 1 o'r arolwg, sy'n cynrychioli 74% o'r cyfranogwyr a gytunodd i gyfrannu at yr astudiaeth. Cyflawnodd 53 o'r cyfranogwyr Gylch 2 o'r arolwg, sy'n cynrychioli 48% o'r cyfranogwyr a lofnododd y ffurflen gydsynio. Yn olaf, cyflawnodd 39 o gyfranogwyr gylch 3, sy'n cynrychioli 38.6% o'r cyfranogwyr a gytunodd i fod yn rhan o'r astudiaeth.

**Tabl 6 Cyfranogwyr a recriwtiwyd yng nghylchoedd 1, 2 a 3**


| Cyfranogwyr | Academyddion | Sefydliadau | Ymarferwyr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Poblogaeth hygyrch (Cyfranogwyr a wahoddwyd) | 150 | 67 | 20 | 237 |
| Sampl (Cyfranogwyr a lofnododd y Ffurflen Gydsynio) | 61 | 32 | 8 | 101 |
| Cyfradd ymateb y boblogaeth hygyrch (sampl) | 41% | 48% | 40% | 43% |
| Cwblhau Arolwg 1 | 43 | 27 | 5 | 75 |
| **Cylch 1**: Cyfradd ymateb y boblogaeth hygyrch | 29% | 40% | 25% | 32% |
| **Cylch 1**: Cyfradd ymateb y sampl | 70% | 84% | 63% | 74% |
| Cwblhau Arolwg 2 | 29 | 21 | 3 | 53 |
| **Cylch 2**: Cyfradd ymateb y boblogaeth hygyrch | 19% | 31% | 15% | 22% |
| **Cylch 2**: Cyfradd ymateb y sampl | 48% | 66% | 38% | 52% |
| Ymadawyr rhwng cylchoedd 1 a 2 | 14 | 6 | 2 | 22 |
| Cyfradd ymadael rhwng cylchoedd 1 a 2 | 33% | 22% | 40% | 29% |
| Cwblhau Arolwg 3 | 20 | 17 | 2 | 39 |
| Cylch 3: Cyfradd ymateb y boblogaeth hygyrch | 13% | 25% | 10% | 16% |
| Cylch 3: Cyfradd ymateb y sampl | 33% | 53% | 25% | 39% |
| Ymadawyr rhwng cylch 2 a 3 | 9 | 4 | 1 | 14 |
| Cyfradd ymadael rhwng cylchoedd 2 a 3 | 31% | 19% | 33% | 26% |

2.8 Yng Nghylch 1, ymatebodd 75 o arbenigwyr i'r arolwg. O'r rhain roedd 29% (43) yn academyddion, 40% (27) yn sefydliadau a 25% (5) yn ymarferwyr (gweler ffigur 3). Yng Nghylch 2, ymatebodd 53 o arbenigwyr i'r arolwg. O'r rhain roedd 19% (29) yn academyddion, 31% (21) yn sefydliadau a 15% (3) yn ymarferwyr (gweler ffigur 4). Yng Nghylch 3, ymatebodd 39 o arbenigwyr i'r arolwg. O'r rhain roedd 13% (20) yn academyddion, 25% (17) yn sefydliadau a 10% (2) yn ymarferwyr (gweler ffigur 5)


**Ffigur 3 : Rolau Arbenigwyr Cylch 1**



**Ffigur 4 : Rolau Arbenigwyr Cylch 2**




**Ffigur 5 : Rolau Arbenigwyr Cylch 3**




*Arolwg Ymarferwyr*

2.9 Anfonwyd y strategaethau a gyflwynwyd i gyfranogwyr Delphi cylch 3 hefyd at ymarferwyr oedd yn gweithio mewn lleoliadau ECEC. Anfonwyd yr arolwg i ysgolion cynradd yng Nghymru at sylw eu harweinwyr Cyfnod Sylfaen. Cysylltwyd hefyd â lleoliadau a gydsyniodd i rannu cysylltiadau ar gofrestr gwarchodwyr plant a lleoliadau gofal dydd Arolygiaeth Gofal Cymru.

*Demograffeg Ymarferwyr*

2.10 Ymatebodd 378 o ymarferwyr i'r arolwg. O'r rhain, roedd 71 (18.8%) yn gweithio mewn meithrinfa breifat, 54 (14.3%) mewn lleoliad cyn ysgol, 20 (5.3%) mewn meithrinfeydd ysgol, 92 (24.3%) mewn ysgol gynradd a 99 (26.2%) fel gwarchodwyr plant. Roedd yr 11.1% arall yn gweithio mewn amrywiol leoliadau eraill megis lleoliadau gofal di-fwlch a chlybiau gwyliau.


**Ffigur 6 : Lleoliadau Ymarferwyr**




2.11 Roedd 200 o'r ymatebwyr (53.5%) yn rheolwyr lleoliadau neu'n benaethiaid ysgol, roedd 43 (11.5%) yn athrawon/arweinwyr blynyddoedd cynnar, roedd 60 (16%) yn

weithwyr/ymarferwyr gofal plant, ac roedd 37 (9.9%) yn athrawon/arweinwyr dosbarth.

**Ffigur 7 : Rôl Ymarferwyr**



# 3. Rhan Un: Effaith COVID-19 ar blant o dan bump oed

## Dull

3.1 Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn archwilio'r dystiolaeth a gafwyd gan arbenigwyr ynghylch effaith COVID-19 ar ddatblygiad plant. Yn ystod cylchoedd 1 a 2 o'r astudiaeth Delphi roedd adran gyntaf yr arolwg (rhan 1) yn cynnwys cyfres o gwestiynau meintiol graddfa Likert yn canolbwyntio ar farn arbenigwyr ynghylch effaith (gadarnhaol a negyddol) COVID-19 ar blant o dan bump oed, wedi'i wahanu yn ôl grŵp sosio-ddemograffig a meysydd datblygiad, sef: datblygiad gwybyddol; datblygiad cymdeithasol ac emosiynol; datblygiad iaith a lleferydd; a datblygiad corfforol. Roedd y grwpiau sosio-ddemograffig yn cynnwys ystod o amgylchiadau y gallai plant fod wedi'u profi yn ystod pandemig COVID-19 (gweler tabl 7).

3.2 Nododd pob cyfranogwr eu canfyddiadau o effaith COVID-19 ar blant o dan 5 oed gan ddefnyddio graddfa Likert 5-pwynt (Effaith negyddol gref – effaith negyddol – dim effaith – effaith gadarnhaol – effaith gadarnhaol gref).

**Tabl 7: Grwpiau sosio-ddemograffig**

| Plant y mae/y bu eu rhieni: | Plant sydd: | Plant o deuluoedd sydd: |
|---|---|---|
| yn weithwyr hanfodol<br>yn gweithio gartref<br>yn ddi-waith, yn segur yn economaidd, neu ar ffyrlo<br>yn dioddef o COVID-19 hirdymor<br>yn unig rieni. | heb siblingiaid<br>ag angen dysgu ychwanegol neu anabledd<br>yn perthyn i leiafrif Ethnig<br>yn derbyn gofal neu wedi'u mabwysiadu<br>yn ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches<br>mewn teuluoedd lle mae plant sy'n ofalwyr. | ag incwm isel neu'n byw mewn tlodi<br>o gartrefi di-Gymraeg ond fel arfer yn mynd i leoliadau cyfrwng Cymraeg<br>wedi dioddef profedigaeth oherwydd COVID. |

*Consensws*

3.3 Rhan annatod o gylchoedd Delphi yw consensws. Ar gyfer yr astudiaeth hon, diffinnir y cysyniad o gonsensws fel un o amodau unffurfiaeth neu gysondeb barn ymhlith y cyfranogwyr. Er mwyn canfod yr eitemau sy'n cyflawni consensws, cymhwyswyd y meini prawf canlynol, sef bod o leiaf 80% o'r cyfranogwyr yn barnu bod y gosodiadau'n cael 'effaith negyddol gref / effaith negyddol', 'dim effaith' neu 'effaith gadarnhaol gref / effaith gadarnhaol' (Falzarano, & Zipp, 2013).

3.3.1 Barn arbenigwyr yw'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

## Canfyddiadau

3.4 Yng Nghylch 1 o'r Astudiaeth Delphi, roedd gofyn bod y cyfranogwyr yn mynegi beth oedd effaith COVID-19 ar ystod o grwpiau sosio-ddemograffig, yn eu barn nhw. O'r 64 o gwestiynau a ofynnwyd, ni chafwyd consensws barn yn achos 20 (gweler atodiad 2 am restr lawn o'r rhain).

3.5 O'r 20 cwestiwn lle na chafwyd consensws yng nghylch un, roedd 9 cwestiwn hefyd heb gyrraedd consensws yn ystod rownd dau. Mae Atodiad 2 yn dangos sut mae hyn wedi newid ers y cylch cyntaf.

3.6 Rhestrir yr eitemau hyn lle na chafwyd consensws ar ôl dau gylch yn nhabl 8 isod. Mae'n werth nodi nad oedd consensws ynghylch plant "y mae/y bu eu rhieni'n weithwyr hanfodol" a "phlant y bu/y mae eu rhieni ar ffyrlo" ar draws tri (o'r pedwar) maes (h.y. ni allai'r cyfranogwyr gytuno ar yr effaith ar y grwpiau hyn o blant).


**Tabl 8: Eitemau lle na chafwyd consensws**

| | |
|---|---|
| Plant y bu/y mae eu rhieni'n weithwyr hanfodol | Datblygiad gwybyddol |
| | Datblygiad iaith a lleferydd |
| | Datblygiad corfforol a iechyd |
| Plant y bu/y mae eu rhieni'n gweithio gartref oherwydd y pandemig, y mae eu plant hefyd gartref | Datblygiad gwybyddol |
| | Datblygiad iaith a lleferydd |
| Plant y bu/y mae eu rhieni ar ffyrlo | Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol |
| | Datblygiad iaith a lleferydd |
| | Datblygiad corfforol a iechyd |
| Plant o gartrefi di-Gymraeg sydd fel arfer yn mynd i leoliadau cyfrwng Cymraeg | Datblygiad corfforol a iechyd |

*Effaith gyffredinol COVID-19*

3.7 Fe wnaethom ni ofyn "*at ei gilydd, sut rydych chi'n meddwl bod COVID-19 wedi effeithio ar ddatblygiad plant o dan 5".* Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigur 8. Cafwyd consensws yn achos yr holl eitemau (cytundeb >80% ynghylch effaith). Er i ni sicrhau consensws (dros 80%) ar draws y parthau datblygiad, mae'n ddiddorol nodi bod 100% o'r cyfranogwyr yn dweud bod effaith negyddol ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol.


**Ffigur 8: Effaith gyffredinol**




*Effaith COVID-19 ar wahanol grwpiau oedran*

3.8 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr "sut rydych chi'n meddwl bod COVID-19 wedi effeithio ar y gwahanol grwpiau oedran?" Mae Ffigur 9 yn dangos consensws ymhlith yr arbenigwyr ar ôl dau gylch. Yng nghylch dau, daeth y grŵp 6 mis i 1 flwyddyn i gonsensws (oedd heb ei gyflawni'n flaenorol yng nghylch un). Ni chyrhaeddwyd consensws ar gyfer babanod cyn geni a newydd-eni, gan mai 63 a 65% yn unig o'r arbenigwyr a nododd ganlyniad negyddol ar gyfer yr ystod oed yma. Mae'n werth nodi bod rhyw 35% o'r cyfranogwyr yn teimlo nad oedd effaith ar fabanod cyn geni a newydd-eni.

**Ffigur 9: Yr effaith ar grwpiau oedran**




*Y Canfyddiadau fesul Parth datblygiad*


3.9 Cyflwynir y cwestiynau hynny lle cafwyd consensws ar draws y ddau gylch isod, o dan bob un o'r parthau datblygiad.

**Datblygiad gwybyddol**

3.10 *Mae hyn yn cyfeirio at allu'r plentyn i ddysgu a datrys problemau. Mae'n cynnwys pob gweithgaredd meddyliol, e.e. rhoi sylw, cofio, symboleiddio, categoreiddio, cynllunio, rhesymu, datrys problemau, creu a ffantaseiddio.*

3.11 *Dengys Ffigur 10 yr eitemau lle cafwyd consensws yng Nghylchoedd 1 a 2 ynghylch effaith COVID-19 ar ddatblygiad gwybyddol (cytundeb >80% ar effaith). Roedd gan arbenigwyr y lefelau uchaf o gonsensws ar gyfer effaith negyddol COVID-19 ar ddatblygiad gwybyddol plant pan oedd plant wedi dioddef profedigaeth, pan oedden nhw'n byw mewn tlodi, neu pan oedd ganddyn nhw angen dysgu ychwanegol (ADY).*

**Ffigur 10: Effaith ar Ddatblygiad Gwybyddol**





### Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol

3.12 *Dyma allu'r plentyn i ryngweithio ag eraill, gan gynnwys helpu eu hunain a hunanreolaeth, e.e. mynegiant emosiynol, rheoleiddio emosiynol, ymlyniad, hwyliau, chwarae, rhyngweithio â chyfoedion a chyfeillgarwch.*

3.13 Credai’r arbenigwyr y byddai’r effaith negyddol fwyaf ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol yn digwydd yn achos y rhai ag ADY, y rhai oedd wedi dioddef profedigaeth, y rhai yr oedd eu rhieni’n ddi-waith, neu a oedd wedi dal COVID-19 hir.

3.14 Dengys Ffigur 11 yr eitemau lle cafwyd consensws yng Nghylchoedd 1 a 2 ynghylch effaith COVID-19 ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol (cytundeb >80% ynghylch effaith).

**Ffigur 11: Effaith ar Ddatblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol**




**Datblygiad Iaith a Lleferydd**

3.15 *Dyma allu'r plentyn i ddeall a defnyddio iaith, e.e. cyfathrebu rhageiriol, datblygiad ffonolegol, datblygiad semantig, datblygiad cystrawen/gramadeg, datblygiad pragmateg. Datblygiad corfforol a iechyd – Twf a datblygiad corfforol y plentyn e.e. sgiliau motor mân, sgiliau motor mawr, datblygiad yr ymennydd a iechyd.*

3.16 Dengys Ffigur 12 yr eitemau lle cafwyd consensws yng Nghylchoedd 1 a 2 ynghylch effaith COVID-19 ar ddatblygiad iaith a lleferydd (cytundeb >80% ynghylch effaith). Yn ôl yr arbenigwyr, byddai'r effaith negyddol fwyaf ar iaith a lleferydd yn digwydd yn achos plant aelwydydd un rhiant, plant o deuluoedd di-Gymraeg sy'n mynd i ysgol Gymraeg, a phlant o deuluoedd sydd ag incwm isel neu sy'n byw mewn tlodi.

## Ffigur 12: Effaith ar Ddatblygiad Iaith a Lleferydd




### Datblygiad Corfforol a Iechyd

3.17 *Twf a datblygiad corfforol y plentyn, e.e. sgiliau motor mân, sgiliau motor mawr, datblygiad yr ymennydd a iechyd.*

3.18 Dengys Ffigur 13 yr eitemau lle cafwyd consensws yng Nghylchoedd 1 a 2 ynghylch effaith COVID-19 ar ddatblygiad corfforol (cytundeb >80% ynghylch effaith). Credai'r arbenigwyr mai'r plant yr oedd eu rhieni wedi dal COVID-19 hir, plant o deuluoedd sydd ag incwm isel neu sy'n byw mewn tlodi, a phlant sydd wedi dioddef profedigaeth fyddai'n dioddef yr effaith negyddol fwyaf ar ddatblygiad corfforol.

**Ffigur 13: Effeithiau ar Ddatblygiad Corfforol**



**Barn arbenigwyr ynghylch Effaith COVID-19 ar blant o dan bump oed**

3.19 Yn nhrydydd cylch yr astudiaeth Delphi, y cylch olaf, rhoddwyd canfyddiadau cylch 2 i'r cyfranogwyr, gan amlinellu ble cafwyd consensws ar gyfer pob grŵp sosio-ddemograffig yn achos gwahanol barthau datblygiad. Ar sail y data, gofynnwyd i'r cyfranogwyr ddarparu sylwadau ansoddol ynghylch y canfyddiadau.

3.20 Mae'r ymatebion a roddwyd gan yr arbenigwyr yn adlewyrchu cymhlethdod deall effaith COVID-19 ar Blant o dan 5 oed. O fewn eu sylwadau, soniodd traean o'r cyfranogwyr eu bod yn cytuno â'r data. Rhoddodd y cyfranogwyr sawl cipolwg defnyddiol ar effeithiau posibl y pandemig a sut i'w lliniaru:

- Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y posibilrwydd y gallai fod effeithiau cadarnhaol ar blant, er nad oeddent wedi'u dal yn y data.
- Amlygodd sawl arbenigwr bwysigrwydd canolbwyntio ar ymatebion tymor hir yn lle rhai tymor byr.
- Roedd awydd i ganolbwyntio ar y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig hwn a chymryd i ystyriaeth ryngddibyniaeth y ffactorau a drafodwyd yn y data.
- Nododd ymatebwyr hefyd fod rhai grwpiau heb eu cynnwys yn yr arolwg, megis: Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig, teuluoedd o ffoaduriaid a cheiswyr lloches, y gallai'r pandemig fod wedi cael effaith benodol ar bawb ohonynt.

3.21 Mae'n eglur bod llawer o gyfranogwyr oedd â rolau academaidd, mewn sefydliadau ac fel ymarferwyr arbenigol yn teimlo bod y canlyniadau a gyflwynir yn atodiad 3 yn cynrychioli eu barn, ac mae'r dyfyniad isod yn esiampl o'r ymateb hwnnw.

> *"Mae'n peri peth syndod i weld y gyfran uchel o ganfyddiad ynghylch effaith negyddol a negyddol gref a gafwyd gan y pandemig ar draws pob un o'r 4 maes datblygiad. Serch hynny, dyma'n bendant yr hyn rwy'n ei glywed yn dod o leoliadau cyn ysgol, felly mae'n amlwg bod angen mwy o gefnogaeth ym mhob maes. Wrth edrych ar oedrannau'r plant lle sonnir am effaith negyddol fwy ac effaith negyddol gref, gellid gweld hynny fel dangosydd bod y plant hynny wedi*

*cael eu hamddifadu o fynediad at ofal plant o safon uchel a gwasanaethau blynyddoedd cynnar eraill."*

3.22 Mae enghraifft bellach yn awgrymu'r mewnwelediad hirdymor sy'n angenrheidiol a'r gwaith ymchwil yn y tymor hwy i wella'r canlyniadau i blant yn ystod pandemig COVID-19:

*"Roedd y canlyniadau'n adlewyrchu'r hyn y byddem ni'n ei ddisgwyl i raddau helaeth – y plant oedd eisoes o dan anfantais cyn y pandemig (rhai o deuluoedd incwm isel, rhai sy'n dioddef profedigaeth, rhai ag anghenion ychwanegol) yw'r rhai y canfyddir eu bod wedi dioddef effaith waeth ar draws yr ystod o ddatblygiad yn sgîl y pandemig. Nid yw hyn yn syndod, gan fod y pandemig wedi golygu bod gwasanaethau cefnogi i'r teuluoedd hyn wedi cael eu lleihau. Cafodd plant yr oedd eu rhieni'n weithwyr hanfodol, yn gweithio gartref, neu ar ffyrlo amser llawer mwy amrywiol – felly bydd rhai o'r plant hyn wedi dioddef effaith wael, tra bod eraill wedi elwa o fwy o amser dwys gyda rhoddwyr gofal (dyna pam mae diffyg consensws) – mae'n wirioneddol bwysig deall profiadau penodol teuluoedd unigol er mwyn trefnu cefnogaeth briodol lle mae angen hynny fwyaf."*

3.23 At ei gilydd, gallwn weld fod yr arbenigwyr yn awgrymu bod mawr angen am ddatblygu strategaethau i liniaru effaith negyddol COVID-19 ymhlith plant o dan 5 oed. Gweler atodiad 3 yn yr adroddiad hwn am yr ymatebion llawn i'r graffiau.


# 4. Rhan Dau: Strategaethau a chefnogaeth i ymdrin ag effaith niweidiol COVID-19 ar blant o dan 5 oed.

**4.1** Mae ail ran yr astudiaeth Delphi yn canolbwyntio ar ddulliau o ymdrin ag effaith niweidiol COVID-19 ar blant o dan 5 oed, gyda ffocws ar syniadau ar gyfer strategaethau a chefnogaeth i blant.

## Dull

4.2 Er mwyn archwilio strategaethau i ymdrin ag effeithiau niweidiol COVID-19 ar blant o dan 5, defnyddiodd y gwaith ymchwil hwn dri chylch, yn gyntaf i gynhyrchu syniadau, yna i leihau nifer y syniadau posibl trwy broses bleidleisio, ac yna'n olaf i sicrhau consenswS trwy broses raddio yn y cylch terfynol. Yng nghylch 1, gofynnwyd i'r arbenigwyr awgrymu strategaethau i liniaru effaith niweidiol COVID-19. Wedyn yng nghylch 2 gofynnwyd iddyn nhw ddewis y rhai roedden nhw'n teimlo fyddai'n fwyaf effeithiol. Yng nghylch 3, gofynnwyd i'r arbenigwyr raddio'r strategaethau roedden nhw'n teimlo fyddai'n fwyaf effeithiol, hyd at y lleiaf effeithiol. Dangosir hynny isod:

**Ffigur 14: Cylchoedd yn pennu'r strategaethau i liniaru effaith niweidiol COVID-19**



4.3 Yng **nghylch 1** o'r astudiaeth Delphi defnyddiwyd cwestiynau penagored i gynhyrchu syniadau ar gyfer dulliau o liniaru effeithiau niweidiol COVID-19. Cafodd y syniadau hyn eu grwpio (fesul parth datblygiad a themâu oedd yn dod i'r amlwg) a'u bwydo i'r arolwg yng nghylch 2. Defnyddiwyd dadansoddiad thematig (Braun a Clarke, 2006) i bennu'r themâu allweddol ym mhob maes datblygiad, a chafodd yr awgrymiadau hyn eu crynhoi a'u cyflwyno mewn gwahanol grwpiau sosio-ddemograffig ar gyfer pob parth datblygiad.

4.4 Yng **nghylch 2** cafodd yr awgrymiadau ar gyfer strategaethau, dulliau neu gamau ymarferol a oedd wedi dod i'r amlwg yn ystod cylch un eu grwpio'n thematig. Yna gofynnwyd i'r cyfranogwyr bleidleisio ar y 1/3 uchaf o ymatebion ar gyfer pob parth (e.e. os oedd 9 opsiwn, gofynnwyd iddyn nhw ddewis y 3 roedden nhw'n teimlo fyddai'n fwyaf gwerthfawr). Mae Atodiad 2 yn dangos y strategaethau a awgrymwyd, ac yna nifer y pleidleisiau a gawsant.

4.5 Yng **nghylch 3** cafodd y cyfranogwyr restr o'r strategaethau a awgrymwyd (yn nhrefn parth datblygiad a thema) a gofynnwyd iddyn nhw raddio'r strategaethau o'r rhai maen nhw'n credu fydd yn fwyaf effeithiol i'r lleiaf effeithiol. Yna buom ni'n edrych ar y safle cymedrig i bennu'r awgrymiadau yn y safle uchaf. Mae'r Safle Cymedrig yn dangos lleoliad cyfartalog pob eitem (e.e. yr holl ymatebion wedi'u cyfuno a'u rhannu gan nifer y cyfranogwyr a ymatebodd i'r cwestiwn). Dyma gyfartaledd rhifyddol safle pob strategaeth yn y rhestr yn ôl barn y rhai yn yr arolwg.

## Canfyddiadau

4.6 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi'r strategaethau mwyaf effeithiol a raddiwyd gan arbenigwyr fel dulliau o liniaru effaith niweidiol COVID-19. Mae'r tablau canlynol yn dangos sut graddiwyd y strategaethau o'r uchaf i'r isaf yn gymedrig ar gyfer pob maes datblygiad a maes ymyrraeth o blith y 1/3 uchaf o strategaethau a awgrymwyd yng nghylch 1.

4.7 Mae'r tablau'n dangos y strategaethau yn y traean uchaf (a nodwyd yng nghylch 2), a sut cawson nhw eu graddio (yng nghylch 3). Mae'r Radd Gymedrig yn dangos lleoliad cyfartalog pob eitem (e.e. yr holl ymatebion wedi'u cyfuno a'u rhannu gan

nifer y cyfranogwyr a ymatebodd i'r cwestiwn). Dyma gyfartaledd rhifyddol safle pob strategaeth yn y rhestr.

**Datblygiad gwybyddol**

4.8 Teimlai arbenigwyr mai'r canlynol fyddai'r strategaethau mwyaf effeithiol i liniaru effeithiau COVID-19 a chefnogi datblygiad gwybyddol plant:

1. Sicrhau bod yr amgylchedd yn cefnogi chwarae, a bod y staff yn cael amser i estyn a chefnogi profiadau chwareus.
2. Yng nghyd-destun y teulu a'r gymuned, awgrymodd arbenigwyr mai'r strategaeth fwyaf effeithiol yw cefnogi teuluoedd i feithrin amgylchedd cadarnhaol yn y cartref.
3. Yn olaf, yn y parth cyllid a darparu adnoddau, awgrymodd arbenigwyr fynediad cyffredinol i bob plentyn, yn hytrach na thargedu. Ar ben hynny, cynigiwyd cadw canolfannau Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar ar agor petai cyfnodau clo pellach.

4.9 Yn gyffredinol, gwelwn fod chwarae, mynediad at ddarpariaeth o safon yn y blynyddoedd cynnar a chefnogaeth rhieni yn cael eu hystyried yn hanfodol i liniaru effeithiau negyddol COVID-19 ar ddatblygiad gwybyddol plant. Dengys y tablau isod fanylion llawn y graddio a wnaed gan arbenigwyr.

**Tabl 9: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad Gwybyddol – Ymarfer ac Addysgeg**

| | | Safle Cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Sicrhau bod yr amgylchedd yn cefnogi chwarae (gan gynnwys chwarae cymdeithasol, chwarae o dan do a chwarae yn yr awyr agored) | 2.3 |
| | Darparu mwy o amser o safon gyda staff yn cefnogi ac yn estyn chwarae a phrofiadau chwareus | 2.33 |
| | Llai o ffocws ar ddysgu ffurfiol (neu ddal i fyny) a mwy ar chwarae annibynnol ac archwilio (er enghraifft rhannau rhydd, chwarae, ffantasi, siarad a gwrando a gweithgareddau creadigol fel tynnu lluniau) | 2.39 |
| Lleiaf effeithiol | Oedolion i arsylwi a chefnogi plant ar sail gwybodaeth o'u harsylwadau | 2.97 |

**Tabl 10: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad Gwybyddol – Teulu a Chymuned**

| | | Safle Cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Cefnogi amgylchedd cadarnhaol yn y cartref | 1.25 |
| Lleiaf effeithiol | Rhoi cefnogaeth i rieni megis Magu Plant, Rhowch Amser Iddo, Estyn i Fyny etc. | 1.75 |

**Tabl 11: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad Gwybyddol – Strategol: Cyllid a Darparu Adnoddau**

| | | Safle Cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Cynyddu cyfleoedd Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar i bob plentyn; cefnogi mynediad cyffredinol yn hytrach na thargedu (e.e. pob plentyn sydd dros ddwy oed ac yn dair blwydd oed i gael mynediad i gyllid) | 2.15 |
| | Peidio â chau Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar os bydd cyfnod clo arall (gan gynnwys ysgolion) | 2.36 |
| | Darparu a chefnogi mwy o leoliadau a gweithwyr proffesiynol o safon uchel i weithio gyda phlant o dan 5 | 2.36 |
| Lleiaf effeithiol | Ffocws ar leihau tlodi a bod yn ymwybodol o dlodi (e.e. sgrinio pob gohebiaeth i deuluoedd â lens 'sensitif i dlodi') | 3.12 |

**Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol**

4.10 I grynhoi, awgrymodd arbenigwyr mai'r strategaethau mwyaf effeithiol i liniaru effaith COVID-19 ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant oedd:

1. Atal plant rhag cael eu rhoi o dan bwysau gan agenda 'dal i fyny' a buddsoddi mewn hyfforddi gweithwyr ECEC proffesiynol.
2. Yng nghyd-destun y teulu a'r gymuned, amlygodd y cyfranogwyr mai datblygu ymyriadau i helpu teuluoedd i annog chwarae yn eu cymdogaethau ac i'w cefnogi'n ariannol ac yn emosiynol oedd y strategaethau mwyaf effeithiol.
3. Yn y parth cyllid a darparu adnoddau, yr ymyriadau mwyaf gwerthfawr oedd y rhai i ddarparu cefnogaeth ariannol i wella safon y lleoliadau addysgol.

4.11 At ei gilydd, awgrymodd yr arbenigwyr bod y strategaethau mwyaf effeithlon i liniaru effeithiau negyddol COVID-19 ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant yn ymwneud â darparu amgylchedd heb bwysau i blant, ac ymarferwyr a hyfforddwyd yn dda.

4.12 Dengys y tablau isod fanylion llawn y safleoedd a roddwyd gan yr arbenigwyr.

**Tabl 12: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol – Ymarfer ac Addysgeg**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Osgoi agenda 'dal i fyny' neu roi pwysau ar blant | 3.53 |
| | Mwy o weithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar o safon uchel yn cael eu hyfforddi a'u cyflogi | 4.00 |
| | Darparu cyfleoedd i chwarae'n rhydd | 4.25 |
| | Creu ymdeimlad o berthyn ar gyfer plant | 4.28 |
| | Cefnogi ffynonellau cefnogaeth dibynadwy, mynediad hwylus ar gyfer lleoliadau Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yng nghyswllt datblygiad cymdeithasol ac emosiynol yn ystod / wedi'r pandemig | 4.94 |
| | Ymarferwyr i ddefnyddio dulliau gweithredu a arweinir gan y plant, gyda chefnogaeth arsylwadau, megis dull gweithredu PACE | 4.97 |
| | Darparu gweithgareddau a chyfleoedd awyr agored | 4.97 |
| Lleiaf effeithiol | Dylid datblygu cyfathrebu a deialog rhwng Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar a rhieni (nid dim ond rhoi gwybodaeth) | 5.06 |

**Tabl 13: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol – Teulu a Chymuned**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Chwarae yn y gymdogaeth ac ymyriadau cymorth i deuluoedd | 1.77 |
| | Cefnogi teuluoedd yn ariannol ac yn emosiynol â chefnogaeth magu plant o safon uchel | 1.90 |
| Lleiaf effeithiol | Darparu cefnogaeth iechyd meddwl i rieni | 2.33 |

**Tabl 14: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol – Strategol: Cyllid a Darparu Adnoddau**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o Safon Dda | 2.31 |
| | Mwy o gyllid i bob plentyn gael mynediad i Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o safon uchel | 2.72 |
| | Cynyddu'r cynnig addysg gynnar am ddim i'r flwyddyn gyfan a'r holl grwpiau eraill | 3.06 |
| | Lleihau tlodi | 3.28 |
| Lleiaf effeithiol | Ffocws ar gysyniad yr 'Haf o Hwyl', fel bod plant yn mwynhau ac yn chwarae yn hytrach na 'dal i fyny' | 3.63 |

**Datblygiad Iaith a Lleferydd**

4.13 Y strategaethau mwyaf effeithiol a awgrymwyd gan arbenigwyr i liniaru effaith negyddol COVID-19 ar ddatblygiad iaith a lleferydd plant oedd:

1. Darparu amgylchedd digonol i blant er mwyn ehangu eu sgiliau iaith a lleferydd. Byddai hyn yn cynnwys amgylchedd cefnogol digynnwrf sy'n golygu bod modd i blant arwain sgyrsiau yn ogystal â chyda gweithwyr ECEC proffesiynol a hyfforddwyd.
2. Yng nghyd-destun y teulu a chymuned awgrymodd arbenigwyr ddarparu cefnogaeth ac offer i rieni er mwyn annog plant i siarad, er enghraifft cyswllt llygad, rhyngweithio manwl, storïau, rhigymau, caneuon a llyfrau.
3. Yn y parth cyllid a darparu adnoddau, y strategaeth fwyaf effeithiol a awgrymwyd oedd hybu cyllid a mynediad cyffredinol i Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o safon uchel ar hyd y flwyddyn, a chadw cylchoedd chwarae, meithrinfeydd a mannau chwarae ar agor yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau COVID-19.

4.14 At ei gilydd, fe welwn fod darparu lle diogel, digynnwrf i ddatblygu iaith a lleferydd yn cael ei werthfawrogi, a gwelwyd y ffaith bod plant mewn amgylchedd cefnogol gydag oedolion ymatebol fel elfen allweddol o ddatblygiad iaith a lleferydd.

4.15 Dengys y tablau isod fanylion llawn y safleoedd a bennwyd gan yr arbenigwyr.

**Tabl 15: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad Iaith a Lleferydd – Ymarfer ac Addysgeg**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Amgylchedd cefnogol, digynnwrf, yn rhoi amser i'r plant siarad – heb eu rhuthro | 3.47 |
| | Hyfforddiant o safon uchel ar gyfer staff Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar ar strategaethau effeithiol i ddatblygu iaith, er enghraifft Elklan | 3.71 |
| | Defnyddio dulliau a arweinir gan y plentyn o ymdrin â chwarae a dysgu | 4.35 |
| | Annog defnydd o strategaethau sy'n annog sgwrsio ac yn cynnal sgwrs (e.e. cwestiynau penagored, esboniadau) | 4.68 |
| | Chwarae a rhyngweithio o safon ag ymarferydd hysbys, yr ymddiriedir ynddynt | 5.68 |
| | Cyfleoedd i chwarae a dysgu yn yr awyr agored | 6.38 |
| | Cyfleoedd i chwarae'n rhydd, yn arbennig gyda chyfoedion | 6.94 |
| | Safon uchel adnoddau mewn lleoliadau megis llyfrau lluniau, rhigymau a chaneuon, llawer o gyfleoedd i ganu, siantio a chwarae â geiriau etc | 7.06 |
| | Cyfleoedd gydag ymarferwyr medrus ar gyfer gweithgareddau megis chwarae rôl, dangos a dweud, cymryd tro | 7.09 |
| | Cyfleoedd ar gyfer chwarae esgus a chwarae llawn dychymyg | 8.26 |
| Lleiaf effeithiol | Cyfyngu'r ffocws ar ddull gweithredu 'dal i fyny' | 8.38 |

**Tabl 16: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad Iaith a Lleferydd – Teulu a Chymuned**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Cefnogi rhieni i alluogi plant i ddysgu iaith a lleferydd gartref, e.e. cyswllt llygad; rhyngweithio manwl; storïau a rhigymau | 1.97 |
| | Annog rhieni i siarad a chanu gyda'u plant yn rheolaidd ac yn aml | 2.09 |
| | Mynediad at lyfrau / lyfrgell a grwpiau rhieni a phlant bach i rieni | 2.58 |
| Lleiaf effeithiol | Cyngor i rieni ar leihau amser sgrîn a chynyddu darllen, canu a siarad gyda'u plentyn/plant | 3.36 |

**Tabl 17: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad Iaith a Lleferydd – Strategol: Cyllid a Darparu Adnoddau**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Mwy o gyllid a mynediad cyffredinol at Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o safon uchel ar hyd y flwyddyn | 1.68 |
| | Cadw cylchoedd chwarae, meithrinfeydd a mannau chwarae ar agor yn ystod cyfnodau cyfyngiadau COVID-19 | 2.13 |
| Lleiaf effeithiol | Sicrhau bod therapi iaith a lleferydd ar gael ar gyfnod ymyrraeth gynnar (yn Gymraeg a Saesneg) | 2.19 |

**Datblygiad Corfforol**

4.16 Y strategaethau mwyaf effeithiol er mwyn lliniaru effeithiau COVID-19 a chefnogi datblygiad corfforol plant a ganfuwyd gan yr arbenigwyr yn yr arolwg oedd:

1. Annog chwarae dan arweiniad plant yn ogystal â chaniatáu i blant gymryd risgiau a gwella'u hyder.
2. Yng nghyd-destun y teulu a chymuned awgrymodd yr arbenigwyr y dylai fod cynnydd yn y digwyddiadau a'r gweithgareddau a gynigir am ddim mewn mannau lleol i annog plant i brofi amgylcheddau newydd a datblygu sgiliau corfforol.
3. Ar ben hynny, yn y categori cymdeithas a'r awyr agored nodwyd mai'r strategaeth fwyaf effeithiol oedd hybu chwarae yn yr awyr agored ac mewn amgylcheddau naturiol.
4. Yn y parth cyllid a darparu adnoddau, awgrymodd yr arbenigwyr mai'r strategaeth fwyaf effeithiol fyddai cynyddu'r cyllid ar gyfer dysgu seiliedig ar chwarae mewn amgylchedd awyr agored a/neu fyd natur.

4.17 At ei gilydd awgrymodd yr arbenigwyr, er mwyn lliniaru effeithiau negyddol y pandemig ar ddatblygiad corfforol, y dylid cynnig chwarae yn yr awyr agored (ar sail byd natur lle bo modd) i blant ac ystod o gyfleusterau am ddim er mwyn chwarae (gan gynnwys cyfleoedd i gymryd risgiau).

4.18 Mae'r tablau isod yn dangos manylion llawn y safleoedd a roddwyd gan yr arbenigwyr.

**Tabl 18: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad Corfforol – Ymarfer ac Addysgeg**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Annog a chefnogi cyfleoedd distrwythur o safon i chwarae ac amser i archwilio | 2.83 |
| | Datblygu hyder plant a'u parodrwydd i gymryd risgiau | 3.37 |
| | Cynllunio amgylchedd sy'n annog plant i symud mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd er mwyn cynnal datblygiad ymwybyddiaeth o'r corff, er enghraifft, chwarae ar y llawr a dringo | 4 |
| | Gwybodaeth i ymarferwyr ynghylch pwysigrwydd chwarae, risg, her a chyfleoedd i chwarae. | 4.17 |
| | Prydau am ddim gyda phwyslais ar fwyta'n iach a chyfleu negeseuon bwyta'n iach i rieni | 4.91 |
| | Strategaethau/hyfforddiant i helpu pob ymarferydd i gyflwyno datblygiad llythrennedd corfforol. Er enghraifft, creu cysylltiadau ag Ysgol Goedwig ac arbenigwyr gweithgaredd corfforol er mwyn arwain a gwella ymarfer yn y maes hwn | 5.26 |
| | Chwarae gêmau sy'n cynnwys symud (o dan do ac yn yr awyr agored) | 5.31 |
| Lleiaf effeithiol | Hybu adnoddau a hyfforddiant i ymarferwyr ar ddefnyddio'r ardal y tu allan | 6.14 |

**Tabl 19: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad Corfforol – Rhieni a Theuluoedd**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Digwyddiadau a gweithgareddau am ddim mewn mannau/lleoedd lleol fel bod plant yn cael cyfle i brofi amgylcheddau newydd a datblygu sgiliau corfforol | 2.71 |
| | Gwneud gweithgaredd yn fwy fforddiadwy i'r teulu cyfan (er enghraifft chwaraeon mwy fforddiadwy fel nofio) | 3.29 |
| | Hyrwyddo negeseuon syml a hawdd eu gweithredu ynghylch bod yn actif a ffyrdd o hybu datblygiad corfforol o enedigaeth ymlaen, e.e. amser bola, This Mum Moves, grwpiau cerdded i rieni newydd, cynlluniau blynyddoedd cynnar actif Cymraeg | 3.44 |
| | Gwybodaeth i rieni am bwysigrwydd chwarae, risg, her a chyfle i chwarae | 3.62 |
| | Cefnogaeth o safon uchel i fagu plant | 3.88 |
| Lleiaf effeithiol | Darparu rhaglenni ymarfer corff i rieni a phlant cyn ysgol, i'w gwneud gartref neu ar sail galw heibio, mewn lleoliadau awyr agored ac o dan do | 4.06 |

**Tabl 20: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad Corfforol – Cymdeithas a'r Awyr Agored**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Annog oedolion a phlant i chwarae yn yr awyr agored ac mewn amgylcheddau naturiol | 1.35 |
| Lleiaf effeithiol | Mynediad at brofiadau awyr agored ystyrlon bob dydd | 1.65 |

**Tabl 21: Y safleoedd a roddwyd gan arbenigwyr ar gyfer Datblygiad Corfforol – Strategol: Cyllid a Darparu Adnoddau**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Mynediad cyffredinol i addysg plentyndod cynnar o safon uchel gyda dysgu seiliedig ar chwarae mewn amgylchedd awyr agored/byd natur | 1.45 |
| | Mwy o gyllid a mynediad cyffredinol i Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o safon uchel ar hyd y flwyddyn | 2.17 |
| Lleiaf effeithiol | Cadw cylchoedd chwarae, meithrinfeydd a mannau chwarae ar agor yn ystod cyfnodau cyfyngiadau COVID-19 | 2.38 |

## 5. Canfyddiadau'r Arolwg Ymarferwyr

5.1 Gofynnwyd i ymarferwyr o leoliadau ECEC osod y strategaethau yn eu trefn, o'r mwyaf effeithiol i'r lleiaf effeithiol yn eu barn nhw. Mae'r tablau canlynol yn dangos safleoedd cymedrig y strategaethau o'r uchaf i'r isaf ar gyfer pob maes datblygiad a maes ymyrraeth.

5.2 Mae'r safle cymedrig yn dangos lleoliad cyfartalog pob eitem (e.e. yr holl ymatebion wedi'u cyfuno a'u rhannu yn ôl nifer y cyfranogwyr a ymatebodd i'r cwestiwn). Dyma gyfartaledd rhifyddol safle pob strategaeth yn y rhestr yn ôl barn y rhai oedd yn rhan o'r arolwg.

### Datblygiad Gwybyddol

5.3 Roedd yr amgylchedd dysgu a'r cartref yn bwysig ar gyfer datblygiad gwybyddol ym marn yr ymarferwyr. Yn arbennig, rhoddwyd safleoedd uwch i strategaethau oedd yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cefnogi chwarae annibynnol. Barnwyd mai mynediad cyffredinol i'r ddarpariaeth oedd y strategaeth bwysicaf, yn strategol ac yn ariannol.

5.4 Dengys y tablau isod fanylion llawn y safleoedd a roddwyd gan yr ymarferwyr.

**Tabl 22: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad Gwybyddol – Ymarfer ac Addysgeg**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Llai o ffocws ar ddysgu ffurfiol (neu ddal i fyny) a mwy ar chwarae annibynnol ac archwilio (er enghraifft rhannau rhydd, chwarae, ffantasi, siarad a gwrando a gweithgareddau creadigol fel tynnu lluniau) | 2.09 |
| | Sicrhau bod yr amgylchedd yn cefnogi chwarae (gan gynnwys chwarae cymdeithasol, chwarae o dan do, a chwarae yn yr awyr agored) | 2.14 |
| | Darparu mwy o amser o safon gyda staff yn cefnogi ac yn estyn chwarae a phrofiadau chwareus | 2.69 |
| Lleiaf effeithiol | Oedolion i arsylwi plant a chefnogi plant ar sail gwybodaeth o'u harsylwadau | 3.09 |

**Tabl 23: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad Gwybyddol – Teulu a Chymuned**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Cefnogi amgylchedd cartref cadarnhaol | 1.25 |
| Lleiaf effeithiol | Darparu cefnogaeth i rieni megis Magu Plant – Rhowch Amser Iddo, Estyn i Fyny etc. | 1.75 |

**Tabl 24: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad Gwybyddol – Strategol: Cyllid a Darparu Adnoddau**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Cynyddu cyfleoedd Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar i bob plentyn; cefnogi mynediad cyffredinol yn hytrach nag wedi'i dargedu (e.e. yr holl blant sydd wedi cael eu pen-blwydd yn ddwy a phlant 3 oed i gael mynediad i gyllid) | 2.02 |
| | Peidio â chau Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar (gan gynnwys ysgolion) os bydd cyfnod clo arall | 2.44 |
| | Darparu a chefnogi mwy o leoliadau a gweithwyr proffesiynol o safon uchel i weithio gyda phlant o dan 5 | 2.49 |
| Lleiaf effeithiol | Ffocws ar leihau tlodi a bod yn ymwybodol o dlodi (er enghraifft, sgrinio pob gohebiaeth â theuluoedd â lens 'sensitif i dlodi') | 3.06 |

**Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol**

5.5 Roedd yr ymarferwyr yn barnu mai 'creu ymdeimlad o berthyn' oedd y strategaeth fwyaf effeithiol ar gyfer lliniaru effaith negyddol COVID-19 ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol. Yn yr un modd â datblygiad gwybyddol, barnwyd hefyd mai cefnogaeth gyffredinol i bob plentyn oedd y strategaeth fwyaf effeithiol, yn strategol ac o safbwynt ariannol. Barnwyd hefyd mai cefnogaeth o safon uchel i rieni oedd y strategaeth fwyaf effeithiol yn y parth teulu a chymuned.

5.6 Dengys y tablau isod fanylion llawn y safleoedd a roddwyd gan yr ymarferwyr

**Tabl 25: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol – Ymarfer ac Addysgeg**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Creu ymdeimlad o berthyn ar gyfer plant | 2.69 |
| | Osgoi agenda 'dal i fyny' neu roi pwysau ar blant | 4.29 |
| | Darparu gweithgareddau a chyfleoedd yn yr awyr agored | 4.55 |
| | Cefnogi ffynonellau cefnogaeth dibynadwy a hawdd cael mynediad iddynt ar gyfer lleoliadau Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yng nghyswllt datblygiad cymdeithasol ac emosiynol yn ystod y pandemig / wedi'r pandemig | 4.72 |
| | Darparu cyfleoedd i chwarae'n rhydd | 4.76 |
| | Ymarferwyr i ddefnyddio dulliau gweithredu sy'n cael eu harwain gan blant, gyda chefnogaeth arsylwadau, megis dull gweithredu PACE | 4.89 |
| | Dylid datblygu cyfathrebu a deialog rhwng Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar a rhieni (nid dim ond rhoi gwybodaeth) | 4.92 |
| Lleiaf effeithiol | Mwy o weithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar o safon uchel yn cael eu hyfforddi a'u cyflogi | 5.17 |

**Tabl 26: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol – Teulu a chymuned**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Cefnogi teuluoedd yn ariannol ac yn emosiynol â chefnogaeth o safon uchel i fagu plant | 1.66 |
| | Darparu cefnogaeth iechyd meddwl i rieni | 2.08 |
| Lleiaf effeithiol | Chwarae yn y gymdogaeth ac ymyriadau cymorth i deuluoedd | 2.26 |

**Tabl 27: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol – Strategol: Cyllid a Darparu Adnoddau**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Mwy o gyllid er mwyn i bob plentyn gael mynediad i Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o safon uchel | 2.51 |
| | Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o Safon Uchel | 2.57 |
| | Cynyddu'r cynnig addysg gynnar am ddim i'r flwyddyn gyfan a'r holl grwpiau eraill | 2.91 |
| | Ffocws ar gysyniad yr 'Haf o hwyl' er mwyn sicrhau bod plant yn mwynhau ac yn chwarae yn hytrach nag yn 'dal i fyny' | 3.38 |
| Lleiaf effeithiol | Lleihau tlodi | 3.64 |

**Datblygiad Iaith a Lleferydd**

5.7 Roedd ymarferwyr yn barnu mai ffactorau amgylcheddol fel amgylchedd cefnogol, digynnwrf ac amgylchedd sy'n cefnogi chwarae dan arweiniad y plentyn oedd y strategaethau mwyaf effeithiol ar gyfer datblygiad iaith a lleferydd. Yng nghyd-destun y teulu, roedd yr ymarferwyr o'r farn mai cefnogaeth i rieni sicrhau bod plant yn gallu dysgu iaith a lleferydd gartref fyddai'r strategaeth fwyaf effeithiol. Gwelid ymyrraeth gynnar fel y strategaeth fwyaf effeithiol yn y parth cyllid a darparu adnoddau.

5.8 Dengys y tablau isod fanylion llawn y safleoedd a roddwyd gan yr ymarferwyr

**Tabl 28: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad Iaith a Lleferydd – Ymarfer ac Addysgeg**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Amgylchedd cefnogol, digynnwrf, yn rhoi amser i'r plant siarad – heb eu rhuthro | 2.44 |
| | Defnyddio dull a arweinir gan y plentyn o ymdrin â chwarae a dysgu | 3.66 |
| | Annog defnydd o strategaethau cychwyn a chynnal sgwrs (e.e. cwestiynau penagored, esboniadau) | 5.22 |
| | Adnoddau o safon uchel mewn lleoliadau, megis llyfrau lluniau, rhigymau a chaneuon, llawer o gyfleoedd i ganu, siantio, chwarae â geiriau etc | 5.77 |
| | Hyfforddiant o safon uchel i staff Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar ynghylch strategaethau effeithiol ar gyfer datblygu iaith, er enghraifft Elklan | 5.84 |
| | Cyfleoedd i chwarae a dysgu yn yr awyr agored | 6.22 |
| | Cyfleoedd i chwarae'n rhydd, yn arbennig gyda chyfoedion | 6.49 |
| | Chwarae a rhyngweithio o safon gydag ymarferydd hysbys, yr ymddiriedir ynddynt | 7.19 |
| | Cyfleoedd ar gyfer chwarae esgus a llawn dychymyg | 7.43 |
| | Cyfleoedd gydag ymarferwyr medrus ar gyfer gweithgareddau megis chwarae rôl, dangos a dweud, cymryd tro | 7.56 |
| Lleiaf effeithiol | Cyfyngu'r ffocws ar ddull gweithredu 'dal i fyny' | 8.19 |

**Tabl 29: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad Iaith a Lleferydd – Teulu a Chymuned**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Cefnogi rhieni i alluogi plant i ddysgu iaith a lleferydd gartref e.e. cyswllt llygad; rhyngweithio manwl; storïau a rhigymau | 2.21 |
| | Annog rhieni i siarad a chanu'n rheolaidd ac yn aml gyda'u plant | 2.31 |
| | Cyngor i rieni ynghylch lleihau amser sgrîn a darllen, canu a siarad mwy gyda'u plant | 2.38 |
| Lleiaf effeithiol | Mynediad at lyfrau/lyfrgell a grwpiau rhieni / plant bach i rieni | 3.1 |

**Tabl 30: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad Iaith a Lleferydd – Strategol: Cyllid a Darparu Adnoddau**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Sicrhau bod therapi iaith a lleferydd ar gael ar gyfnod ymyrraeth gynnar (yn Gymraeg a Saesneg) | 1.78 |
| | Cyllid pellach a mynediad cyffredinol i Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar ar hyd y flwyddyn | 2.06 |
| Lleiaf effeithiol | Cadw cylchoedd chwarae, meithrinfeydd a mannau chwarae ar agor yn ystod cyfnodau cyfyngiadau COVID-19 | 2.16 |

**Datblygiad Corfforol**

5.9 Cyfleoedd i ddatblygu hyder, cymryd risgiau a chyfleoedd o safon uchel i chwarae'n ddistrwythur oedd y strategaethau mwyaf effeithiol ar gyfer datblygiad corfforol ym marn yr ymarferwyr. Gwelid mynediad i amgylcheddau newydd, gan gynnwys yr awyr agored, hefyd fel strategaethau effeithiol. Unwaith yn rhagor, gwelid mynediad cyffredinol i amgylcheddau chwarae fel y strategaeth fwyaf effeithiol yn y parth cyllid a darparu adnoddau.

5.10 Dengys y tablau isod fanylion llawn y safleoedd a roddwyd gan yr ymarferwyr.

**Tabl 31: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad Corfforol – Ymarfer ac Addysgeg**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Datblygu hyder plant a'u parodrwydd i gymryd risgiau | 2.48 |
| | Annog a chefnogi cyfleoedd chwarae distrwythur o safon uchel ac amser i archwilio | 2.88 |
| | Cynllunio amgylchedd sy'n annog plant i symud mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, er enghraifft i gefnogi datblygiad ymwybyddiaeth o'r corff, er enghraifft chwarae ar y llawr a dringo | 4.22 |
| | Gwybodaeth i ymarferwyr ynghylch pwysigrwydd chwarae, risg, her a chyfle i chwarae. | 4.92 |
| | Prydau am ddim, gyda phwyslais ar fwyta'n iach a chyfleu negeseuon bwyta'n iach i rieni | 5.09 |
| | Chwarae gêmau sy'n cynnwys symud (o dan do ac yn yr awyr agored) | 5.13 |
| | Strategaethau/hyfforddiant i helpu pob ymarferydd i gyflawni datblygiad llythrennedd corfforol. Er enghraifft, creu cysylltiadau â'r Ysgol Goedwig ac arbenigwyr gweithgarwch corfforol er mwyn arwain a gwella ymarfer yn y maes hwn | 5.38 |
| Lleiaf effeithiol | Hyrwyddo adnoddau a hyfforddiant i ymarferwyr ar ddefnyddio'r ardal y tu allan | 5.91 |

**Tabl 32: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad Corfforol – Rhieni a Theuluoedd**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Digwyddiadau a gweithgareddau am ddim mewn lleoliadau / mannau lleol er mwyn i blant fedru profi amgylcheddau newydd a datblygu sgiliau corfforol | 2.26 |
| | Cefnogaeth o safon uchel i rieni | 3.11 |
| | Gwneud gweithgaredd yn fwy fforddiadwy i'r teulu cyfan (er enghraifft chwaraeon mwy fforddiadwy fel nofio) | 3.17 |
| | Gwybodaeth i rieni am bwysigrwydd chwarae, risg, her a chyfle i chwarae | 3.48 |
| | Hybu negeseuon syml, hawdd eu gweithredu ynghylch bod yn actif a ffyrdd o hybu datblygiad corfforol o'r geni, e.e. amser bola, This Mum Moves, grwpiau cerdded i rieni newydd, cynlluniau blynyddoedd cynnar actif Cymraeg | 4.46 |
| Lleiaf effeithiol | Darparu rhaglenni ymarfer corff i rieni a phlant cyn ysgol, i'w gwneud gartref neu ar sail galw heibio, mewn lleoliadau awyr agored ac o dan do | 4.51 |

**Tabl 33: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad Corfforol – Cymdeithas a'r Awyr Agored**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Annog oedolion a phlant i chwarae yn yr awyr agored ac mewn amgylcheddau naturiol | 1.27 |
| Lleiaf effeithiol | Mynediad at brofiadau awyr agored ystyrlon bob dydd | 1.73 |

**Tabl 34: Y safleoedd a roddwyd gan ymarferwyr ar gyfer Datblygiad Corfforol – Strategol: Cyllid a Darparu Adnoddau**

| | | Safle cymedrig |
|---|---|---|
| Mwyaf effeithiol | Mynediad cyffredinol i addysg plentyndod cynnar o safon uchel gyda dysgu seiliedig ar chwarae mewn amgylchedd awyr agored / byd natur | 1.88 |
| | Cadw cylchoedd chwarae, meithrinfeydd a mannau chwarae ar agor yn ystod cyfnodau cyfyngiadau COVID-19 | 2.06 |
| Lleiaf effeithiol | Cyllid pellach a mynediad cyffredinol i Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o safon uchel ar hyd y flwyddyn | 2.06 |

# 6. Crynodeb: Strategaethau a chefnogaeth i ymdrin ag effaith niweidiol COVID-19 ar blant o dan 5 oed.

6.1 Agweddau allweddol a roddwyd mewn safleoedd uchel gan ymarferwyr ar draws y parthau oedd amgylcheddau chwarae cefnogol, yn arbennig amgylcheddau sy’n annog chwarae’n annibynnol gartref ac yn y lleoliad ECEC. Ymhellach, roedd yr ymarferwyr yn barnu’n gyson mai darpariaeth gyffredinol oedd y strategaeth fwyaf effeithiol i liniaru effaith negyddol COVID-19 ar draws pob parth datblygiad. Gwelid cefnogaeth i rieni a gofalwyr hefyd fel rhywbeth pwysig ar draws yr holl barthau.

**Nodweddion tebyg a gwahaniaethau allweddol rhwng cyfranogwyr Delphi ac ymarferwyr**

6.2 Roedd llawer o nodweddion tebyg yn yr ymatebion gan ymarferwyr a’r cyfranogwyr Delphi gwreiddiol. Roedd y ddau grŵp o gyfranogwyr yn rhoi strategaethau oedd yn ffafrio dulliau gweithredu cyffredinol o ymdrin â chefnogaeth mewn safle uchel. Ymhellach, roedd strategaethau oedd yn targedu’r amgylchedd chwarae yn cael eu rhoi mewn safle uchel gan y ddau grŵp.

6.3 Roedd meysydd hefyd lle roedd gwahaniaethau rhwng y ddau grŵp. Roedd yr ymarferwyr fel petaent yn ffafrio strategaethau ynghylch chwarae annibynnol, ac roeddent yn llai tebygol o ddweud y byddai hyfforddiant ychwanegol i ymarferwyr yn effeithiol. Roedd y grŵp Delphi yn barnu bod ymyriadau penodol a enwyd yn fwy effeithiol na’r grŵp ymarferwyr.

6.4 Efallai nad yw’n syndod bod yr ymarferwyr, at ei gilydd, yn ffafrio dulliau gweithredu oedd yn targedau amgylchedd a diwylliant ECEC.

# 7. Casgliadau

7.1 Fel yr amlinellwyd ar ddechrau'r adroddiad hwn, ni ellir tanbrisio pwysigrwydd bywyd cynnar plentyn. Gan gadw hyn mewn cof, gosododd y gwaith ymchwil hwn, a gomisiynwyd gan is-adran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru, nod iddo'i hun, sef deall yn well farn arbenigwyr ac ymarferwyr ynghylch effaith COVID-19 ar blant o dan 5 a'r strategaethau a allai ymdrin ag unrhyw effeithiau niweidiol ar y plant hyn oherwydd COVID-19. Amcangyfrifwyd bod tua 155,000 o blant o dan bump oed yn mynd i leoliadau gofal plant, chwarae ac addysg cyn pandemig COVID-19 (Arolygiaeth Gofal Cymru). O ystyried hynny, mae'n debygol bod COVID-19 wedi cael effaith fawr ar fynediad a phrofiad y demograffig hwn o ECEC, o ystyried y cau a ddigwyddodd ar raddfa eang yn 2020. Ymhellach, mae ymchwil flaenorol wedi dangos bod llawer o leoliadau ECEC wedi sôn am drafferthion dichonoldeb a staffio, a hynny yn ystod ac wedi pandemig COVID-19 (Ofsted, 2020; Hunnikin et al, 2020, Tyrie et al., 2021).

7.2 O ystyried y dystiolaeth a graddfa nifer y plant mae pandemig COVID-19 wedi effeithio arnynt, mae'r gwaith ymchwil hwn yn darparu tystiolaeth y mae mawr angen amdani gan arbenigwyr ynghylch pa grwpiau o blant, yn eu canfyddiad nhw, sy'n dioddef yr effaith negyddol fwyaf oherwydd y pandemig, yn ogystal â rhai awgrymiadau ar gyfer strategaethau a chefnogaeth a allai ddechrau ymdrin â'r effeithiau negyddol hyn a'u lliniaru. Amcanion yr ymchwil oedd canolbwyntio ar y canlynol:

1. **Effaith**: Sicrhau consensws ynghylch effaith COVID-19 ar blant o dan 5
2. **Gwahaniaethau**: Canfod gwahaniaethau o ran effaith ymhlith grwpiau sosio-ddemograffig
3. **Lliniaru**: Canfod strategaethau a chefnogaeth a allai ymdrin ag effeithiau niweidiol COVID-19 ar blant o dan 5
4. **Cyfleoedd**: Canfod cyfleoedd i wneud yn fawr o gynnal a neu estyn yr effeithiau cadarnhaol, os oes rhai.

7.3 Un o’r amcanion a amlinellwyd uchod oedd archwilio effaith pandemig COVID-19 ar blant ac archwilio gwahaniaethau mewn grwpiau sosio-ddemograffig. Awgrymodd yr arbenigwyr fod plant:

- A ddioddefodd brofedigaeth oherwydd COVID-19;
- Y bu i’w rhieni ddal COVID-19 hir;
- Sydd ag ADY/AAA / anabledd/anhawster dysgu;
- Sy’n byw gyda theulu sy’n profi incwm isel neu fyw mewn tlodi a ddioddefodd yr effaith fwyaf negyddol oherwydd y pandemig. Gellid awgrymu, felly, mai’r grwpiau hyn o blant allai fod angen cymorth fwyaf i liniaru’r effeithiau negyddol hyn.

7.4 Teimlai ein cyfranogwyr arbenigol mai po hynaf oedd y plentyn (gyda’r hynaf yn 4-5), mwyaf tebygol fydden nhw o brofi effeithiau negyddol oherwydd COVID-19, tra teimlai traean o’r ymatebwyr nad oedd babanod cyn geni a newydd-eni wedi profi effaith y pandemig o gwbl. Ymhellach, credai’r arbenigwyr mai datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant (0-5 oed) fyddai’n dioddef yr effaith negyddol fwyaf oherwydd COVID-19. Dilynid hynny gan ddatblygiad iaith a lleferydd, datblygiad corfforol a iechyd, ac yn olaf, datblygiad gwybyddol. Er gwaethaf ymdrech i archwilio unrhyw effeithiau cadarnhaol gan bandemig COVID-19, ychydig iawn o gyfranogwyr gredai fod effaith gadarnhaol ar unrhyw grŵp sosio-ddemograffig, grŵp oedran, na maes datblygiad (er i rai gydnabod hynny yn eu sylwadau ansoddol).

7.5 Prif amcan arall yr ymchwil oedd canfod strategaethau a chefnogaeth a allai ymdrin ag effeithiau niweidiol COVID-19 ar blant o dan 5, neu eu lliniaru. Mae’r ymchwil wedi dod â nifer o strategaethau posibl ynghyd, sef rhai yr oedd yr arbenigwyr yn teimlo fyddai’n fwyaf effeithiol.

7.6 Wrth archwilio strategaethau i gefnogi datblygiad iaith a lleferydd, roedd ymarferwyr ac arbenigwyr yn barnu mai ffactorau amgylcheddol fel amgylchedd cefnogol, digynnwrf ac amgylchedd sy’n cefnogi chwarae a arweinir gan blant yw’r strategaethau mwyaf effeithiol. Yng nghyd-destun y teulu, roedd yr arbenigwyr a’r ymarferwyr o’r fath mai cefnogaeth i rieni fel bod modd i’r plant ddysgu iaith a

lleferydd gartref fyddai'r strategaeth fwyaf effeithiol. Gwelwyd ymyrraeth gynnar fel y strategaeth fwyaf effeithiol yn y parth cyllid a darparu adnoddau.

7.7 Wrth archwilio strategaethau i gefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant mewn lleoliadau ECEC, awgrymodd arbenigwyr ac ymarferwyr fod osgoi agenda 'dal i fyny' neu roi pwysau ar blant yn debygol o fod yn effeithiol, ac roedd yr ymarferwyr yn unig hefyd yn barnu mai 'creu ymdeimlad o berthyn' oedd y strategaeth fwyaf effeithiol. Barnwyd hefyd bod cymorth i fagu plant gyda ffocws ar lesiant rhieni yn strategaeth effeithiol iawn.

7.8 Roedd arbenigwyr ac ymarferwyr yn barnu bod y cartref a'r amgylchedd dysgu yn bwysig i liniaru effeithiau negyddol COVID-19 ar ddatblygiad gwybyddol. Yn arbennig, rhoddwyd safle uwch i strategaethau oedd yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cefnogi chwarae (gan gynnwys chwarae cymdeithasol, chwarae o dan do a chwarae yn yr awyr agored), ac roedd yr arbenigwyr yn awgrymu hefyd y byddai lleihau'r ffocws ar ddysgu ffurfiol yn fuddiol. Barnwyd mai'r strategaeth bwysicaf yn strategol ac yn ariannol oedd mynediad cyffredinol i'r ddarpariaeth.

7.9 O ran cefnogi a lliniaru effaith COVID-19 ar ddatblygiad corfforol plant ifanc roedd arbenigwyr ac ymarferwyr yn barnu bod cyfleoedd chwarae distrwythur o safon uchel, ac amser i archwilio a datblygu hyder a chymryd risgiau ymhlith plant yn strategaethau effeithiol. Ochr yn ochr â'r strategaethau hyn mewn lleoliadau awgrymwyd y gellid darparu digwyddiadau ac adnoddau / mannau / amgylcheddau awyr agored am ddim, ynghyd ag amgylchedd cartref lle mae oedolion a phlant yn chwarae gyda'i gilydd yn yr awyr agored.

7.10 I gloi, wrth edrych ar draws y parthau datblygiad mae tueddiadau clir sy'n ein cyfeirio at gefnogi lleoliadau ECEC i alluogi amgylcheddau a chyfleoedd chwarae cefnogol, lleihau'r pwysau ar blant i 'ddal i fyny' a chreu amgylcheddau digynnwrf fel bod plant yn cael ymdeimlad o berthyn. O ran dulliau mwy strategol o liniaru effaith COVID-19, y neges allweddol yw y dylai'r ddarpariaeth ECEC fod o safon uchel, gyda mynediad cyffredinol, a hynny ochr yn ochr â chefnogaeth ac adnoddau o safon i rieni a gofalwyr.

## 8. Rhestr Atodiadau

1. Parthau datblygiad
2. RHAN UN: Data Cylch 1 a Chylch 2
3. RHAN UN: Ymatebion ansoddol cylch 3
4. RHAN DAU: Dadansoddiad thematig Cylch 1 – themâu ac amlder
5. RHAN DAU: Cwestiynau lle na chafwyd consensws yng nghylch 2

## Atodiad 1: Parthau datblygiad

8.1 O ran y math o effaith ar blant byddem ni am gynnwys y meysydd datblygiad canlynol:

- Datblygiad gwybyddol – Mae hyn yn cyfeirio at allu'r plentyn i ddysgu a datrys problemau. Mae'n cynnwys pob gweithgarwch meddyliol, e.e. rhoi sylw i rywbeth, cofio, symboleiddio, categoreiddio, cynllunio, rhesymu, datrys problemau, creu, a ffantaseiddio.
- Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol - Dyma allu'r plentyn i ryngweithio ag eraill, gan gynnwys helpu eu hunain ac ymarfer hunanreolaeth, e.e. mynegiant emosiynol, rheoleiddio emosiynol, ymlyniad, natur, chwarae, rhyngweithio â chyfoedion a chyfeillgarwch.
- Datblygiad iaith a lleferydd - Dyma allu'r plentyn i ddeall a defnyddio iaith e.e. cyfathrebu cyn geiriau, datblygiad ffonolegol, datblygiad semanteg, datblygiad cystrawen/gramadeg, datblygiad pragmateg.
- Datblygiad corfforol a iechyd – Twf a datblygiad corfforol y plentyn e.e. sgiliau motor mân, sgiliau motor mawr, datblygiad yr ymennydd a iechyd

## Atodiad 2: RHAN UN Data Cylch 1 a Chylch 2.

***Nodyn****: yr amlygu porffor yw'r mannau lle cyflawnwyd consensws yng nghylch 1 a glas yw cylch 2.*

| | | Cylch 1 | | | Cylch 2 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grŵp** | **Datblygiad** | **Effaith negyddol** | **Dim effaith** | **Effaith gadarnhaol** | **Effaith negyddol** | **Dim effaith** | **Effaith gadarnhaol** |
| Plant y bu / y mae eu rhieni'n weithwyr hanfodol | Datblygiad gwybyddol | 51.4 | 29.7 | 18.9 | 65 | 25 | 10 |
| | Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 75.6 | 9.8 | 14.6 | 87.8 | 7.3 | 4.9 |
| | Datblygiad iaith a lleferydd | 56.4 | 25.6 | 17.9 | 70.7 | 24.4 | 4.9 |
| | Datblygiad corfforol a iechyd | 55 | 30 | 15 | 65.9 | 29.3 | 4.9 |
| Plant y bu/ y mae eu rhieni'n gweithio gartref oherwydd y pandemig, y mae eu plant hefyd gartref | Datblygiad gwybyddol | 75 | 12.5 | 12.5 | 72.7 | 13.6 | 13.6 |
| | Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 86 | 4.7 | 9.3 | | | |
| | Datblygiad iaith a lleferydd | 75.6 | 9.8 | 14.6 | 73.3 | 13.3 | 13.3 |
| | Datblygiad corfforol a iechyd | 77.3 | 9.1 | 13.6 | 80.0 | 17.8 | 2.2 |
| Plant y bu/ y mae eu rhieni'n ddi-waith oherwydd y pandemig | Datblygiad gwybyddol | 77.5 | 20 | 2.5 | 87.8 | 7.3 | 4.9 |
| | Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 97.6 | 2.4 | 0 | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Datblygiad iaith a lleferydd | 78.9 | 18.4 | 2.6 | 82.9 | 12.2 | 4.9 |
| | Datblygiad corfforol a iechyd | 82.9 | 14.6 | 2.4 | | | |
| Plant y bu/ y mae eu rhieni ar ffyrlo | Datblygiad gwybyddol | 50 | 25 | 25 | 39.5 | 37.2 | 23.3 |
| | Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 63.4 | 22 | 14.6 | 63.6 | 15.9 | 20.5 |
| | Datblygiad iaith a lleferydd | 47.5 | 27.5 | 25 | 46.5 | 30.5 | 23.3 |
| | Datblygiad corfforol a iechyd | 59.5 | 19 | 21.4 | 51.1 | 28.9 | 20 |
| Plant y mae eu rhieni wedi dal COVID-19 hir | Datblygiad gwybyddol | 94.7 | 2.6 | 2.6 | | | |
| | Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 97.5 | 2.5 | 0 | | | |
| | Datblygiad iaith a lleferydd | 87.2 | 10.3 | 2.6 | | | |
| | Datblygiad corfforol a iechyd | 95 | 5 | 0 | | | |
| Plant aelwydydd un rhiant | Datblygiad gwybyddol | 89.7 | 7.7 | 2.6 | | | |
| | Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 94.7 | 5.3 | 0 | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Datblygiad iaith a lleferydd | 84.2 | 10.5 | 5.3 | | | |
| | Datblygiad corfforol a iechyd | 89.2 | 8.1 | 2.7 | | | |
| Plant sydd heb siblingiaid | Datblygiad gwybyddol | 73.8 | 19 | 7.1 | 84.4 | 15.6 | 0 |
| | Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 95.5 | 4.5 | 0 | | | |
| | Datblygiad iaith a lleferydd | 81.4 | 14 | 4.7 | | | |
| | Datblygiad corfforol a iechyd | 78.6 | 19 | 2.4 | 85.7 | 14.3 | 0 |
| Plant ag angen dysgu ychwanegol (angen addysgol arbennig/ anabledd neu anhawster dysgu) | Datblygiad gwybyddol | 95.7 | 2.2 | 2.2 | | | |
| | Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 97.8 | 2.2 | 0 | | | |
| | Datblygiad iaith a lleferydd | 97.8 | 2.2 | 0 | | | |
| | Datblygiad corfforol a iechyd | 97.8 | 2.2 | 0 | | | |
| Plant o leiafrif ethnig | Datblygiad gwybyddol | 80 | 17.1 | 2.9 | | | |
| | Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 83.8 | 10.8 | 5.4 | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Datblygiad iaith a lleferydd | 80.6 | 13.9 | 5.6 | | | |
| | Datblygiad corfforol a iechyd | 81.1 | 13.5 | 5.4 | | | |
| Plant sy’n derbyn gofal neu sydd wedi’u mabwysiadu | Datblygiad gwybyddol | 75 | 21.9 | 3.1 | 86.5 | 10.8 | 2.7 |
| | Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 94.1 | 5.9 | 0 | | | |
| | Datblygiad iaith a lleferydd | 75 | 21.9 | 3.1 | 83.8 | 13.5 | 2.7 |
| | Datblygiad corfforol a iechyd | 82.4 | 14.7 | 2.9 | | | |
| Plant o deuluoedd sydd ag incwm isel neu sy’n byw mewn tlodi | Datblygiad gwybyddol | 95.7 | 2.1 | 2.1 | | | |
| | Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 97.9 | 2.1 | 2.1 | | | |
| | Datblygiad iaith a lleferydd | 91.1 | 4.4 | 4.4 | | | |
| | Datblygiad corfforol a iechyd | 93.5 | 2.2 | 4.3 | | | |
| Plant o gartrefi di-Gymraeg sydd fel arfer yn mynd i leoliadau | Datblygiad gwybyddol | 80.6 | 19.4 | 0 | | | |
| | Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 83.3 | 16.7 | 0 | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cyfrwng Cymraeg | Datblygiad iaith a lleferydd | 93.5 | 6.5 | 0 | | | |
| | Datblygiad corfforol a iechyd | 69 | 24.1 | 6.9 | 78.8 | 18.2 | 3.0 |
| Plant sydd wedi dioddef profedigaeth oherwydd COVID-19 | Datblygiad gwybyddol | 95.1 | 2.2 | 0 | | | |
| | Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 97.8 | 2.2 | 0 | | | |
| | Datblygiad iaith a lleferydd | 90 | 10 | 0 | | | |
| | Datblygiad corfforol a iechyd | 92.9 | 4.8 | 2.4 | | | |
| At ei gilydd, sut rydych chi'n meddwl bod COVID-19 wedi effeithio ar ddatblygiad plant o dan 5 oed | Datblygiad gwybyddol | 91.3 | 6.5 | 2.2 | | | |
| | Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 100 | 0 | 0 | | | |
| | Datblygiad iaith a lleferydd | 93.5 | 4.3 | 2.2 | | | |
| | Datblygiad corfforol a iechyd | 89.4 | 8.5 | 2.1 | | | |
| Yn eich barn chi, sut mae COVID-19 wedi effeithio ar y gwahanol grwpiau oedran? | Cyn geni | 58.3 | 38.9 | 2.8 | 65.1 | 34.9 | 0 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Babanod newydd-eni. (< 6 mis) | 52.3 | 36.4 | 11.4 | 62.8 | 34.9 | 2.3 |
| | 6 mis i 1 flwydd | 66.7 | 22.2 | 11.1 | 81.8 | 15.9 | 2.3 |
| | 1 i 2 flwydd oed | 84.1 | 13.6 | 2.3 | | | |
| | 2 i 3 blwydd oed | 95.6 | 2.2 | 2.2 | | | |
| | 3 i 4 blwydd oed | 93.5 | 4.3 | 2.2 | | | |
| | 4 i 5 mlwydd oed | 93.5 | 2.2 | 4.3 | | | |

**Atodiad 3: RHAN UN Ymatebion ansoddol i Gylch 3**

8.2 Fel arbenigwr ym maes plentyndod cynnar, beth yw eich meddyliau am y canlyniadau mae'r graffiau hyn yn eu cyflwyno?

| |
|---|
| Rwy'n tueddu i gytuno â'r canlyniadau hyn ar sail tystiolaeth o'n hysgol ni |
| Mae'r graffiau'n debyg i'r hyn y byddwn i wedi'i ddisgwyl. Maen nhw'n adlewyrchu pryderon y rhai sy'n ymwneud â phlant yn feunyddiol. Mewn gwirionedd bydd yr effeithiau ar iaith a lleferydd i blant ifanc yn fwy na'r effaith ar ddatblygiad sosio-emosiynol, ond mae'r rhan fwyaf o bobl yn pryderu'n fwy am ddatblygiad sosio-emosiynol. |
| Mae Covid wedi parhau'n hwy nag oedden ni'n rhagweld. Rydyn ni'n tanbrisio'r effaith ar ddatblygiad gwybyddol |
| Byddai'n ddefnyddiol gweld y canlyniadau hyn wedi'u grwpio mewn rhyw fath o ddull rhesymegol, gan fod anhawster gweld beth sy'n digywdd. Ar ben hynny, mae rhai o'r geiriau wedi diflannu o'r graffiau (Plant y bu/y mae eu rhieni'n gweithio gartref…) felly alla i ddim gwneud sylwadau ar y rheiny. Byddai hefyd yn ddefnyddiol deall sut rydych chi'n diffinio "consensws". Er enghraifft, yn achos yr eitemau lle na chafwyd consensws, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn dal i farnu bod yr eitemau hyn yn cael effaith "negyddol" ar iechyd plant. Hyd yn oed os nad oedd consensws ynghylch yr eitemau hyn, roedd dros 80% o'r cyfranogwyr yn barnu bod yr eitem yn cael effaith negyddol gref neu effaith negyddol. Mae'n ddiddorol nodi nad oedd consensws yn achos unrhyw un o'r eitemau lle roedd y rhieni ar ffyrlo. Gellid tybio y gallai ffyrlo gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad plant, gan fod gan rieni o bosib fwy o amser i'w dreulio gyda'u plant. Yn yr un modd, mae'n ddiddorol nad oedd consensws yn achos tri o'r parthau os oedd gan blant rieni oedd yn weithwyr hanfodol. Efallai na fydd cymaint o effaith ar y plant hyn, gan y bydd eu rhieni'n mynd i'r gwaith fel arfer, a bydd y plant yn mynd i'r ysgol fel arfer, felly mewn egwyddor efallai na fyddai cymaint o newid yn eu hamgylchiadau. Mae'n ddiddorol nad oedd yr arbenigwyr at ei gilydd yn teimlo bod unrhyw effeithiau cadarnhaol gan unrhyw eitemau ar ddatblygiad plant o gwbl. Mae hyn yn cyferbynnu â rhai adroddiadau anecdotaidd ac arolygon sy'n awgrymu bod y pandemig wedi cael rhai effeithiau cadarnhaol ar rai plant a theuluoedd. |
| Gan fod mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn credu bod Covid wedi cael effaith negyddol ar y blynyddoedd cynnar, mae tri chwestiwn pwysig i bawb sy'n gwneud penderfyniadau, pob ariannwr a phob gwleidydd fyfyrio arnynt.<br><br>1. Sut gall pawb ohonom gyfrannu at sicrhau bod y plant yn cael eu cefnogi… am yr 11 mlynedd nesaf yn fras. Nid yw taflu arian at atebion tymor byr yn ddigon da pan yw peth o'r anfantais yn ychwanegu at anfantais oedd eisoes yn bodoli. Mae'r plant hyn wedi cael dechreuadau gwahanol, mwy o bontio, mwy o aflonyddu nag erioed, a bydd y profiadau hyn yn dylanwadu ar eu dyfodol yn y tymor byr a'r tymor hir.<br>2. Wrth i ni ailadeiladu, pa gamau cadarnhaol gallwn ni gymryd yng Nghymru i hybu cyfleoedd plant i ffynnu. Mae'n rhaid i ni dderbyn, fel cymdeithas lle mae 30% a mwy o blant yn byw mewn tlodi, na allwn ni ddychwelyd yn syml at y dulliau gweithredu blaenorol a disgwyl canlyniadau gwahanol, mwy cadarnhaol… mae angen i ni wneud yn fawr o'r cyfle i greu newidiadau er mwyn darparu'n |

well ar gyfer plant o'u genedigaeth hyd at 16 oed.
3. Pa wersi sydd wedi cael eu dysgu, fel bod unrhyw bandemig yn y dyfodol, neu ddigwyddiad amgylcheddol, yn arwain at ganlyniadau negyddol llai dramatig i blant

---

Er bod y canlyniadau'n ddiddorol i mi, ac yn cyd-fynd â'm profiad, nid oes gennyf feddyliau na sylwadau ychwanegol

---

Byddwn i'n cytuno â'r canfyddiadau yma – sy'n dangos bod Covid wedi cael effaith negyddol ar blant ifanc mewn amrywiaeth o feysydd datblygiadol. Dyna'r hyn y byddwn i wedi'i ddisgwyl

---

Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu'r hyn sy'n cael ei drafod yn gyffredinol – ond effeithiwyd ar fy ymatebion i gwestiynau blaenorol gan y ffaith mod i heb brofiad uniongyrchol. Byddwn i siŵr o fod yn dyfalu bod gan y plant a gafodd brofiadau cadarnhaol rieni oedd ag amser i'w roi iddyn nhw, cyfleoedd i chwarae, ac i ryngweithio â ffrindiau a theulu etc lle roedd modd. Yn anecdotaidd, mae lleoliadau'n cyfeirio at y ffaith nad yw iaith a lleferydd plant, eu harferion mynd i'r toiled, na'u 'hymddygiad' fel bydden nhw wedi disgwyl.

---

Rwy'n credu bod yr effaith ar fabanod cyn geni a newydd-eni wedi bod yn fwy nag mae'r graff yn awgrymu, gan nad yw rhieni wedi gallu derbyn yr un lefel o gefnogaeth, a bydd hynny wedi effeithio ar eu hymlyniad ac ar nodau datblygiad y plentyn. Hefyd, mae'r plant hŷn wedi cael mwy o ddilyniant yn eu darpariaeth, gan fod yr ysgolion i raddau helaeth wedi aros ar agor ac eithrio yn ystod y cyfnod clo.

---

Rwy'n credu eu bod nhw siŵr o fod yn gywir. Ond yr hyn sy'n ddiddorol yw nad ydym ni'n nodi'n uniongyrchol y niwed mwy sy'n bosibl i blant o deuluoedd BME, ffoaduriaid neu geiswyr lloches. Ydy, mae anghydraddoldeb, tlodi etc wedi'u cynnwys, ond os ydym ni'n gwybod eu bod wedi profi effaith anghymesur, gallai fod angen argymhelliad i edrych ar brofiadau'r grŵp hwn, yn hytrach na Chymry gwyn.

---

Rwy'n credu bod y canlyniadau'n cynrychioli barn ymatebion ynghylch beth sy'n bwysig yn ystod plentyndod, ond hefyd bod llawer o dybio wedi digwydd

---

Mae'n peri peth syndod gweld y gyfran uchel o ganfyddiad bod y pandemig wedi achosi effaith negyddol a negyddol gref ar draws y 4 maes datblygiad. Mae hyn yn debyg iawn i'r hyn rwy'n ei glywed gan leoliadau cyn ysgol, fodd bynnag, felly maen amlwg bod angen mwy o gefnogaeth ym mhob maes. Wrth edrych ar oedrannau'r plant lle'r adroddwyd am effaith negyddol fwy a negyddol gref, gellid gweld hynny fel arwydd bod y plant hynny wedi cael eu hamddifadu o ofal plant safonol a gwasanaethau blynyddoedd cynnar eraill.

---

Nid yw'r canlyniadau'n fy synnu'n ormodol, ar y cyfan. Er y byddwn wedi tybio y gallai'r farn ynghylch plant cyn geni a newydd-eni fod yn llai positif.

---

Dim ond bod yr effaith gyffredinol negyddol ar blant o dan 5 yn eitha pendant, a bod rhaid i ni sicrhau, os bydd pandemig arall neu argyfwng iechyd cyhoeddus yn y dyfodol, ein bod ni'n blaengynllunio ac yn ystyried sut mae lliniaru'r effaith negyddol hon. Mae'n awgrymau y dylsai Arbenigwyr Plentyndod Cynnar fod ar bwyllgorau cynghori'r llywodraeth ar gyfer y pandemig, i roi

| |
|---|
| cyngor o gychwyn y pandemig ynghylch beth ddylsai gael ei roi ar waith i leiafu'r effaith negyddol ar y garfan hon o blant. Bydd goblygiadau pellgyrhaeddol i'r effaith negyddol hon ar hyd cwrs bywyd y garfan hon o blant. |
| Nid yw'r data'n fy synnu gan fod y blynyddoedd cyntaf mewn lleoliadau/ysgolion yn allweddol o ran gosod sylfeini dysgu i'r dyfodol |
| Rwy'n credu eu bod yn wir yn adlewyrchu effaith Covid, ond yr her nawr yw symud ymlaen a sicrhau nad yw'r plant hyn yn dioddef eto. |
| Mae'r meysydd effaith lle na chafwyd consensws yn adlewyrchu 'effaith amrywiol' y ffactorau hyn yn eu cyd-destun – er enghraifft efallai bod profiad rhai teuluoedd o ffyrlo yn gadarnhaol gan ei fod yn lleihau pryderon ariannol/darparu peth sefydlogrwydd; tra bod eraill o bosib wedi cael profiad negyddol o golli gwaith dros dro (colli trefn ddyddiol a phwrpas – pawb gartref yn ystod y dydd – a bydd ffactorau eraill hefyd yn effeithio ar hynny, er enghraifft addasrwydd tai, mynediad at fannau awyr agored etc...) Mae angen edrych ar hyn trwy'r lens 'system addasol gymhleth' lle nad edrychir ar y newidynnau'n ynysig – bydd effaith un newidyn yn dibynnu ar effaith gronnol eraill. |
| Mae Covid wedi cael effaith negyddol gref ar blant o dan bump. Bydd yr effaith yn dal i'w theimlo yn eu hamgylchedd cymdeithasol a dysgu. |
| Rwy'n credu bod y canlyniadau fel byddech chi'n disgwyl o ystyried effaith gyffredinol COVID ar gymdeithas |
| Yn gyffredinol yn unol â'r disgwyl. Mae'n ddefnyddiol gweld bod cydbwysedd yn y darlun – h.y. rhyw gydnabyddiaeth nad yw pob effaith yn un negyddol gref |
| Dim sylw, mae'r data'n cyfateb i'm disgwyliadau, yn arbennig yr effaith niweidiol ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol. |
| Ers i mi lenwi'r holiadur, ac wrth bod y plant yn ôl mewn lleoliadau, mae'r staff yn dechrau deall effaith covid yn well. Nifer wedi nodi bod plant ddim ar ôl gymaint â hynny, ond erbyn nawr - canol Hydref, mae'r staff wedi cael mwy o amser gyda'r plant ac yn gweld mwy o fylchau yn eu datblygiad e.e. lleferydd, ymddygiad a sgiliau cymdeithasol yn gyffredinol. |
| Diddorol mai po hynaf oedd plentyn, mwyaf negyddol oedd yr effaith ganfyddedig, ond hefyd yr effaith fwy cadarnhaol |
| Nid yw'r canlyniadau'n achosi syndod, ac maen nhw'n cyfateb i'm barn innau i raddau helaeth. |
| Rwy'n meddwl bod y canlyniadau'n ddiddorol iawn. Rwy'n credu bydd effaith Covid yn cymryd blynyddoedd i'w wireddu. |

| |
|---|
| Mae'r canlyniadau i raddau helaeth yn adlewyrchu beth byddem ni'n ei ddisgwyl – plant sydd eisoes o dan anfantais cyn y pandemig (rhai o gartrefi incwm isel, rhai sy'n dioddef profedigaeth, rhai ag anghenion ychwanegol) yw'r rhai y canfyddir eu bod wedi dioddef effaith waeth ar draws ystod eu datblygiad oherwydd y pandemig. Nid yw hyn yn syndod, gan fod y pandemig wedi arwain at leihau'r gwasanaethau cefnogol i'r teuluoedd hyn. Cafodd plant yr oedd eu rhieni'n weithwyr hanfodol, neu'n gweithio gartref, neu ar ffyrlo amser llawer mwy amrywiol – felly bydd rhai o'r plant hyn wedi dioddef effaith wael, ond bydd eraill wedi elwa o fwy o amser dwys gyda rhoddwyr gofal (sydd wedi achosi'r diffyg consensws) – mae'n wirioneddol bwysig deall profiadau penodol teuluoedd unigol i drefnu cefnogaeth briodol lle mae'r angen mwyaf amdani. |
| Fel mae'r canlyniadau'n awgrymu, mae'r ymatebwyr yn teimlo bod y pandemig wedi cael effaith wahaniaethol ar blant o dan 5 oed yn unol â'u hamgylchiadau cymdeithasol ac economaidd, sy'n rhagdybiaeth deg. |

**Atodiad 4: RHAN DAU cylch 1 dadansoddiad thematig o themâu ac amlder**

| Categori / Thema | CYFA NSWM | 1. Dat. Gwyb | 2. Dat. Cym ac Emosiynol | 3. Dat. Iaith a Lleferydd | 4. Dat. Corfforol a Iechyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhoi amser i blant addasu | 3 | 0 | 3 | 0 | 0 |
| Digidol | 5 | 1 | 2 | 1 | 0 |
| Ffordd o fyw | 7 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| Cefnogaeth Addysg Gorfforol Benodol | 8 | 0 | 0 | 0 | 8 |
| Cynnydd mewn ymarferwyr | 11 | 2 | 4 | 1 | 1 |
| Arsylwi | 11 | 4 | 1 | 2 | 1 |
| Cyffredinol | 12 | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Cysylltiadau ysgol/cartref | 15 | 6 | 2 | 3 | 1 |
| Cydberthynas Plant/oedolion | 16 | 1 | 2 | 10 | 2 |
| Cefnogaeth SAL benodol | 17 | 0 | 0 | 16 | 0 |
| Sgiliau i'w haddysgu | 18 | 10 | 4 | 3 | 1 |
| Defnyddio canllawiau presennol | 24 | 2 | 1 | 12 | 5 |
| Cyfnod clo | 29 | 5 | 4 | 6 | 9 |
| Cyfathrebu â disgyblion | 36 | 6 | 9 | 13 | 0 |
| Amgylchedd | 38 | 8 | 5 | 9 | 8 |
| Cynyddu'r gefnogaeth i randdeiliaid | 45 | 13 | 7 | 13 | 4 |
| Cynyddu cyllid | 53 | 8 | 7 | 11 | 22 |
| Math o ymyriad | 53 | 2 | 17 | 7 | 7 |
| Dull Addysgu/ Rhyngweithio | 58 | 6 | 6 | 20 | 19 |
| Cynyddu cyfleoedd plant | 63 | 13 | 5 | 9 | 22 |
| Cefnogi teuluoedd | 66 | 2 | 16 | 14 | 14 |
| Chwarae | 74 | 12 | 15 | 19 | 19 |

**Atodiad 5: RHAN DAU: Cwestiynau lle na chafwyd consensws yng nghylch 2.**

| **Datblygiad gwybyddol** | **Strategaeth neu gefnogaeth** | **Nifer y Pleidleisiau** |
|---|---|---|
| Ymarfer ac Addysgeg mewn Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar | Sicrhau bod yr amgylchedd yn cefnogi chwarae (gan gynnwys chwarae cymdeithasol, chwarae o dan do, ac yn yr awyr agored) | 32 |
| | Llai o ffocws ar ddysgu ffurfiol (neu ddal i fyny) a mwy ar chwarae annibynnol ac archwilio (er enghraifft rhannau rhydd, chwarae, ffantasi, siarad a gwrando a gweithgareddau creadigol fel tynnu lluniau) | 31 |
| | Darparu mwy o amser o safon gyda staff yn cefnogi ac yn estyn chwarae a phrofiadau chwareus. | 22 |
| | Oedolion i arsylwi plant a chefnogi plant ar sail gwybodaeth o'u harsylwadau | 17 |
| | Gwybodaeth a chefnogaeth i staff Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yng nghyswllt datblygiad plant | 16 |
| | Gwella cyfathrebu'r sector addysg a gofal cynnar gyda rhieni a darparu gwell cefnogaeth ar gyfer dysgu gartref | 14 |
| | Darparu mwy o weithgareddau/heriau wedi'u targedu i ddatblygu sylw, cof, iaith a datrys problemau | 14 |

| | | |
|---|---|---|
| | Annog darllen a defnyddio llyfrau i gefnogi meddwl a siarad plant | 11 |
| | Cefnogi staff i ddysgu o'r newydd sut mae addysgu a chefnogi'r plant newydd o dan 5 oed wedi COVID-19 mewn lleoliadau | 11 |
| | Darparu mwy o ganu, cerddoriaeth a storïau | 8 |
| | Oedolion i ymgysylltu â phlant ynghylch eu profiadau ac ateb cwestiynau mewn iaith briodol | 5 |
| | Cefnogi dogfennau'r cwricwlwm a mabwysiadu dull plentyn-ganolog | 4 |
| | Defnyddio gweithgareddau neu heriau a dargedwyd gyda phlant i ddatblygu hunanofal a dealltwriaeth o'r hunan ac eraill | 3 |
| Teulu a chymuned | Cefnogi amgylchedd cadarnhaol yn y cartref | 28 |
| | Darparu cefnogaeth i rieni megis Magu Plant – Rhowch Amser Iddo, Estyn i Fyny etc. | 27 |
| | Rhieni i siarad gyda'u plant a gwneud mwy o sgwrsio a rhyngweithio â nhw | 25 |
| | Dysgu teuluoedd am sut i weithio gyda phlant gartref | 10 |
| | Lleihau neu reoli amser sgrîn | 5 |
| Strategol: Cyllid a | Darparu a chefnogi mwy o leoliadau o safon uchel a gweithwyr proffesiynol ar gyfer plant o dan 5 oed | 30 |

| | | |
|---|---|---|
| darparu adnoddau | Cynyddu cyfleoedd Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar i bob plentyn; cefnogi mynediad cyffredinol yn hytrach nag wedi'i dargedu (e.e. pob plentyn sydd wedi troi 2 oed a phlant 3 oed i gael mynediad i gyllid CS) | 28 |
| | Peidio â chau Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar (gan gynnwys ysgolion) os bydd cyfnod clo arall | 22 |
| | Ffocws ar leihau tlodi a bod yn ymwybodol o dlodi (er enghraifft, sgrinio pob cyfathrebu â theuluoedd â lens 'sensitif i dlodi') | 17 |
| | Estyn y Cynnig Gofal Plant i fwy o grwpiau / deuluoedd a mwy o adegau o'r flwyddyn | 16 |
| | Darparu mwy o adnoddau a chefnogaeth ariannol i blant o dan 5 | 16 |
| | Darparu mwy o staff (e.e. Cynorthwywyr Addysgu) i weithio gyda phlant mewn Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar ac ysgolion | 13 |
| | Cefnogaeth i wasanaethau ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol | 12 |
| | Darparu mwy o athrawon cymwysedig ar gyfer plant dros 2 flwydd oed | 11 |
| | Cefnogi teuluoedd i ddeall a chael mynediad i'r cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar – cefnogi pobl nad ydynt yn manteisio ar Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar sy'n cael ei ariannu | 11 |
| | Ariannu rhwydweithiau / grwpiau cymunedol a chefnogi | 8 |

| Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | Strategaeth neu gefnogaeth | Nifer y Pleidleisiau |
|---|---|---|
| Ymarfer ac Addysgeg mewn Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar | Mwy o weithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar o safon uchel yn cael eu hyfforddi a'u cyflogi | 32 |
| | Osgoi agenda 'dal i fyny' neu roi pwysau ar blant | 29 |
| | Darparu gweithgareddau a chyfleoedd awyr agored | 26 |
| | Darparu cyfleoedd i chwarae'n rhydd | 21 |
| | Creu ymdeimlad o berthyn i blant | 19 |
| | Cefnogi ffynonellau cymorth dibynadwy a hawdd eu cyrchu ar gyfer lleoliadau Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yng nghyswllt datblygiad cymdeithasol ac emosiynol yn ystod / wedi'r pandemig | 19 |
| | Dylid datblygu cyfathrebu a deialog rhwng Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar a rhieni (nid rhoi gwybodaeth yn unig) | 18 |
| | Ymarferwyr i ddefnyddio dulliau gweithredu sy'n cael eu harwain gan blant, gyda chefnogaeth arsylwadau, megis dull gweithredu PACE | 18 |
| | Cynnwys sgiliau cymdeithasol syml neu adnabod teimladau mewn gêmau a gweithgareddau rhyngweithiol difyr | 16 |
| | Caniatáu amser i blant fynegi eu teimladau | 15 |
| | Cefnogi siarad am feddyliau a theimladau | 15 |

| | | |
|---|---|---|
| | Defnyddio pecynnau hyfforddi fel y Blynyddoedd Rhyfeddol i gefnogi rhieni, plant a staff mewn Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar | 15 |
| | Gwrando ar blant yn llafar ac yn ddieiriau | 12 |
| | Cyfleoedd i ddarllen a chlywed storïau / llyfrau a gwrando a siarad amdanyn nhw. | 12 |
| | Gêmau rhyngweithiol a gweithgareddau cymryd tro | 11 |
| | Cyfleoedd i gael trafodaethau gydag oedolion yn ystod ac ynghylch chwarae h.y. plant yn gwneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd trwy chwarae | 10 |
| | Ymgymryd â gweithgareddau ymlacio neu leihau straen, gyda defodau beunyddiol neu drefn ddyddiol | 10 |
| | Cyfleoedd i chwarae a chymdeithasu gyda phlant hŷn neu oedolion | 8 |
| | Cyfleoedd i ryngweithio ag anifeiliaid | 7 |
| | Lle i siarad / cornel dawel | 3 |
| | Gweithgareddau chwarae rôl | 1 |
| Teulu a chymuned | Darparu cefnogi iechyd meddwl i rieni | 27 |
| | Cefnogi teuluoedd yn ariannol ac yn emosiynol â chymorth o safon uchel i rieni | 25 |
| | Chwarae mewn cymdogaethau ac ymyriadau cymorth i deuluoedd | 22 |
| | Sesiynau galw heibio i gefnogi rhieni a rhoi cyfle i'r plant gymdeithasu | 20 |

| | | |
|---|---|---|
| | Ffocws ar gefnogaeth gwydnwch i deuluoedd, er enghraifft Cylch Diogelwch (Circle of Security), fframwaith gwydnwch Boing Boing, rhaglenni Solihull, rhieni fel athrawon cyntaf, a phecynnau cymorth i deuluoedd | 15 |
| | Adnoddau i deuluoedd a gofalwyr i helpu plant i ddeall eu profiadau | 13 |
| | Cefnogaeth i deuluoedd – gweithwyr medrus yn defnyddio dulliau therapi teulu systemig | 11 |
| | Cefnogi rhieni er mwyn rheoli ymddygiad | 10 |
| | Cefnogaeth i blant a theuluoedd pan fydd profedigaeth yn digwydd | 2 |
| Strategol: Cyllid a darparu adnoddau | Mwy o arian i bob plentyn gael mynediad at Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o safon uchel | 27 |
| | Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o Safon Uchel | 26 |
| | Ffocws ar gysyniad yr 'Haf o Hwyl', fel bod plant yn mwynhau ac yn chwarae, yn hytrach na 'dal i fyny' | 22 |
| | Cynyddu'r cynnig addysg gynnar am ddim i'r flwyddyn gyfan a'r holl grwpiau eraill | 20 |
| | Lleihau tlodi | 20 |
| | Dileu rhwystrau i gael mynediad i Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar | 19 |
| | Agwedd sy'n canolbwyntio ar Hawliau Plant wrth ymdrin ag unrhyw ymyrraeth | 18 |
| | Cydnabod a gwrando ar brofiadau plant yn ystod pandemig COVID-19 | 16 |

| | | |
|---|---|---|
| | Lleihau cyfyngiadau'r cyfnodau clo (e.e. cadw mannau chwarae a chylchoedd chwarae ar agor, a chaniatáu cynulliadau teuluol) | 13 |

| **Datblygiad iaith a lleferydd** | **Strategaeth neu gefnogaeth** | **Nifer y Pleidleisiau** |
|---|---|---|
| Ymarfer ac Addysgeg mewn Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar | Hyfforddiant o safon uchel i staff Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar ar strategaethau effeithiol i ddatblygu iaith, er enghraifft Elklan | 33 |
| | Amgylchedd cefnogol digynnwrf, yn rhoi amser I'r plant siarad – heb eu rhuthro | 31 |
| | Defnyddio dull gweithredu o ymdrin â chwarae a dysgu sy'n cael ei arwain gan y plentyn | 31 |
| | Adnoddau o ansawdd uchel mewn lleoliadau, megis llyfrau lluniau, rhigymau a chaneuon, llawer o gyfleoedd i ganu, siantio, a chwarae gyda geiriau etc | 28 |
| | Cyfleoedd i chwarae a dysgu yn yr awyr agored | 26 |
| | Cyfleoedd i chwarae'n rhydd, yn arbennig gyda chyfoedion | 25 |
| | Cyfyngu'r ffocws ar y dull gweithredu 'dal i fyny' | 23 |
| | Annog defnydd o strategaethau sy'n sbarduno ac yn cynnal sgwrs (e.e. cwestiynau penagored, esboniadau) | 22 |
| | Chwarae a rhyngweithio o safon gydag ymarferydd hysbys, yr ymddiriedir ynddyn nhw | 19 |
| | Cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau megis chwarae rôl, dangos a dweud, cymryd tro gydag ymarferwyr medrus | 18 |
| | Cyfleoedd ar gyfer chwarae llawn dychymyg a ffugio | 18 |

| | | |
|---|---|---|
| | Dysgu ac addysgu mewn grwpiau bach | 17 |
| | Cyfleoedd ar gyfer llawer o ddarllen a storïau; yn arbennig darllen rhyngweithiol. Er enghraifft, gwneud amser stori yn ‘arbennig’, e.e. defnyddio siocled poeth neu glustogau cwtshlyd | 16 |
| | Dylid datblygu cyfathrebu rhwng Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar a rhieni | 16 |
| | Defnyddio technegau siarad sy’n cael eu harwain gan y plentyn | 15 |
| | Ymarferwyr sy’n gallu modelu iaith | 14 |
| | Cyfleoedd i ganu, gan gynnwys yn yr awyr agored | 13 |
| | Rhoi’r pecyn offer iaith a lleferydd ar waith / adnoddau fel Sgrîn Wellcomm | 12 |
| | Cymryd tro wrth sgwrsio | 12 |
| | Gweithgareddau llafar / gêmau sy’n datblygu geirfa | 11 |
| | Mynychu lleoliadau Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn rheolaidd | 11 |
| | Rhyngweithio’n gymdeithasol ag oedolion a chyfoedion mewn grwpiau gwahanol faint | 11 |
| | Dileu’r defnydd o fygydau mewn lleoliadau Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar oherwydd eu bod yn llesteirio datblygiad iaith a lleferydd | 10 |
| | Cynyddu faint o ddisgrifio a gwneud sylwadau ar weithredoedd oedolion a phlant mae oedolion yn eu gwneud | 9 |

| | | |
|---|---|---|
| | Defnyddio awgrymiadau, teganau a chrefftau i gefnogi deialog a sgwrs | 7 |
| | Cysylltu geiriau â lluniau i gefnogi datblygiad geirfa plant | 7 |
| | Defnyddio anifeiliaid ac anifeiliaid anwes i helpu i dawelu plant a'u defnyddio yn 'gyfaill' i siarad â nhw | 6 |
| | Defnyddio arwyddion neu Makaton i gefnogi cyfathrebu | 6 |
| | Trefnu gair/cysyniad yr wythnos y mae plant yn ei ddysgu ac yn archwilio ei ystyr | 5 |
| | Defnyddio gêmau megis gêmau bwrdd a gêmau iaith | 4 |
| | Defnyddio technoleg ar ffurf y teledu a ffonau symudol, iPadiau, gliniaduron etc gyda rhaglenni addysgiadol | 2 |
| | Ailadrodd - ailadrodd brawddegau mewn ymateb i blant | 0 |
| | Defnyddio galwadau ffôn ar-lein | 0 |
| Teulu a chymuned | Annog rhieni i siarad â'u plant a chanu gyda nhw'n rheolaidd ac yn aml | 27 |
| | Mynediad at lyfrau/lyfrgell a grwpiau rhieni/plant bach i rieni | 23 |
| | Cefnogi rhieni i alluogi plant i ddysgu iaith a lleferydd gartref e.e. cyswllt llygad; rhyngweithio manwl; storïau a rhigymau | 23 |
| | Cyngor i rieni ar leihau amser sgrîn, a darllen, canu a siarad mwy â'u plentyn/plant | 19 |
| | Cefnogi iechyd meddwl rhieni | 18 |
| | Hybu ac annog sgyrsiau oddi mewn i amgylchedd y cartref | 17 |

| | | |
|---|---|---|
| | Cefnogi rhieni i alluogi plant i siarad, i adrodd storïau ac i wrando gartref, er enghraifft cefnogi rhyngweithio o safon uchel (e.e. fideos y BBC, Tiny Happy People) | 12 |
| | Gwiriadau rheolaidd gyda therapyddion lleferydd a lleihau rhestrau aros | 11 |
| | Cyflwyno mwy o lyfrgelloedd teithiol (e.e. Bysus Stori) | 9 |
| | Adnoddau iaith a lleferydd i rieni | 9 |
| | Cefnogi defnydd o gyfathrebu priodol, ar ffurf iaith lafar a iaith y corff | 7 |
| | Hyfforddiant a chefnogaeth i oedolion gynnal deialog gyda babanod | 6 |
| Strategol: Cyllid a darparu adnoddau | Cyllid pellach a mynediad cyffredinol i Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar ar hyd y flwyddyn | 22 |
| | Cadw cylchoedd chwarae, meithrinfeydd a mannau chwarae ar agor yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau COVID-19 | 20 |
| | Sicrhau bod therapi iaith a lleferydd ar gael ar adeg cyfnod ymyrraeth gynnar (yn Gymraeg a Saesneg) | 20 |
| | Bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu'r cynllun SLC Talk with Me, gyda mynediad cyffredinol i hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr gofal plant a blynyddoedd cynnar | 18 |
| | Ariannu mentrau chwarae cymunedol | 14 |
| | Mae angen cyllid wedi'i neilltuo ar fyrddau iechyd ledled Cymru i gefnogi cyflwyno gwasanaethau iaith a lleferydd o'r radd flaenaf, fel bod anghenion datblygiadol plant yn cael eu cefnogi'n llawn a bod amserau aros yn cael eu dileu | 11 |
| | Rhoi arweiniad ynghylch pryd a sut mae rhoi gwybod am bryderon ynghylch oedi a chael mynediad i gefnogaeth | 10 |

| | | |
|---|---|---|
| | Lleoliadau gofal plant tymor byr i deuluoedd lle mae pryderon ynghylch datblygiad plant, ond lle mae cymhlethdod y teulu yn galw am leoliad i gefnogi datblygiad tra bod y gweithiwr yn meithrin capasiti'r rhieni i barhau â'r targedau datblygiad plant. | 9 |
| | Goruchwyliaeth i ymarferwyr rheng flaen e.e. ymwelwyr iechyd/ aelodau'r tîm Ymweliadau Iechyd / ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar ar weithio gyda phlant sydd ag oedi o ran iaith | 7 |
| | Helpu plant i ddeall sut mae cyfathrebu mewn byd lle mae wynebau pobl wedi'u cuddio | 3 |

| Datblygiad corfforol a iechyd | Strategaeth neu gefnogaeth | Nifer y Pleidleisiau |
|---|---|---|
| Ymarfer ac Addysgeg mewn Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar | Annog a chefnogi cyfleoedd chwarae heb eu strwythuro sydd o safon uchel, ac amser i archwilio | 36 |
| | Datblygu hyder plant a'u parodrwydd i gymryd risgiau | 28 |
| | Chwarae gêmau sy'n cynnwys symud (o dan do ac yn yr awyr agored) | 25 |
| | Cynllunio amgylchedd sy'n annog plant i symud mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, megis cefnogi datblygiad o ymwybyddiaeth o'r corff, er enghraifft, chwarae ar y llawr a dringo | 22 |
| | Gwybodaeth i ymarferwyr ynghylch pwysigrwydd chwarae, risg, her a chyfleoedd i chwarae. | 21 |
| | Strategaethau/hyfforddiant i helpu pob ymarferydd i gyflawni datblygiad llythrennedd corfforol. Er enghraifft, creu cysylltiadau â'r Ysgol Goedwig ac arbenigwyr gweithgaredd corfforol i arwain a gwella ymarfer yn y maes hwn | 20 |
| | Hybu adnoddau a hyfforddiant i ymarferwyr ynghylch defnyddio'r ardal awyr agored | 19 |
| | Prydau am ddim, gyda phwyslais ar fwyta'n iach a chyfleu negeseuon bwyta'n iach i rieni | 18 |
| | Darparu profiadau i blant sy'n caniatáu iddyn nhw ddefnyddio ystod eang o gyfarpar ac offer â rheolaeth gynyddol | 16 |
| | Canfod plant sydd ag anhwylderau motor mawr/niwroddatblygiadol yn gynnar | 15 |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoi cyfleoedd i symud | 15 |
| | Sicrhau bod clybiau ar ôl ysgol yn weithredol eto | 14 |
| | Darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer llesiant a phrofiadau iach i blant | 14 |
| | Mwy o leoliadau gofal plant i weithio tuag at gyflawni strategaethau iach megis y Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy neu Cynllun Gwên | 13 |
| | Darparu mwy o deganau a gêmau awyr agored | 11 |
| | Cefnogi ac ymgymryd ag ystod o weithgaredd/chwarae sy'n ennyn diddordeb ac yn ddeniadol (gan gynnwys rhai sy'n canolbwyntio ar sgiliau motor mân neu sgiliau motor mawr) | 11 |
| | Defnyddio adnoddau a gweithgareddau i annog gweithgaredd a symudiad | 11 |
| | Tyfu ffrwythau a llysiau i'w cynaeafu a'u coginio gyda'i gilydd | 10 |
| | Rhagor o sesiynau Addysg Gorfforol, gan fod y rhain yn aml yn cael eu gwthio i waelod y cwricwlwm | 9 |
| | Cefnogi chwarae motor mawr o dan do | 7 |
| | Defnyddio cymhellion i annog gweithgaredd corfforol a symud, er enghraifft, dringo grisiau/camau/sesiynau dawnsio estynedig | 5 |
| | Arloesedd mewn gêmau a chwaraeon sy'n atal COVID-19 rhag ymledu | 3 |
| | Rhoi cerddoriaeth ymlaen yn aml | 3 |

| | | |
|---|---|---|
| | Defnyddio storïau a llyfrau sy'n cynnwys bwyd iach a ffyrdd iach o fyw | 3 |
| | Dylid osgoi chwaraeon cyswllt gymaint â phosibl | 1 |
| Rhieni a Theuluoedd | Digwyddiadau a gweithgareddau am ddim mewn lleoliadau / mannau lleol er mwyn caniatáu i blant brofi amgylcheddau newydd a datblygu sgiliau corfforol | 28 |
| | Gwneud gweithgaredd yn fwy fforddiadwy i'r teulu cyfan (er enghraifft chwaraeon mwy fforddiadwy fel nofio | 28 |
| | Cymorth o safon uchel i rieni | 26 |
| | Darparu rhaglenni ymarfer corfforol ar gyfer rhieni a phlant cyn ysgol, i'w gwneud gartref neu ar sail galw heibio, mewn lleoliadau awyr agored ac o dan do | 24 |
| | Hyrwyddo negeseuon syml a hawdd eu gweithredu ynghylch bod yn actif a ffyrdd o hybu datblygiad corfforol o enedigaeth e.e. amser bola, This Mum Moves, grwpiau cerdded i rieni, cynlluniau blynyddoedd cynnar actif Cymraeg | 20 |
| | Gwybodaeth i rieni ynghylch pwysigrwydd chwarae, risg, her a chyfle i chwarae | 19 |
| | Cyngor i rieni ynghylch effaith niweidiol diffyg symud a gormod o amser sgrîn | 18 |
| | Sicrhau bod cefnogaeth bwydo ar y fron yn cael ei darparu wyneb yn wyneb i rieni newydd | 16 |
| | Cefnogi teuluoedd i deimlo'n rhan o gymuned | 16 |
| | Dylai plant gael mynediad at ddiet iach | 15 |
| | Dylai oedolion wneud mwy o weithgareddau a symud gyda phlant i annog eu hymgysylltiad | 15 |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynyddu mynediad at fwydydd iach a hyder rhieni wrth goginio – e.e. darparu peiriannau coginio araf, cynhwysion a chardiau ryseitiau, neu flychau ffrwythau a llysiau yn rhad neu am ddim | 13 |
| | Yn achos rhieni sy'n gweithio ac sydd â phlant gartref, yn ystod egwyliau gwaith, dylai'r rhieni fynd â'r plant am dro byr yn yr ardd neu mewn parciau | 8 |
| | Bwyta'n iach yn rheolaidd | 8 |
| | Hyfforddiant i rieni i hybu a chydnabod bod 3 awr yn gyfnod addas o amser symud i blentyn o dan 5 | 7 |
| | Lleoliadau gofal plant tymor byr ar gyfer teuluoedd lle mae pryderon datblygiad plant, ond lle mae cymhlethdod y teulu yn galw am leoliad i gefnogi datblygiad tra bod y gweithiwr yn meithrin gallu'r rhieni i barhau â'r targedau datblygiad plant | 6 |
| | Yn y tŷ, mae cystadlaethau dawnsio i'r teulu yn un ffordd o sicrhau bod plant yn symud yn rheolaidd, a hefyd eu bod nhw'n rhyngweithio â'r rhai o'u hamgylch | 1 |
| Cymdeithas a'r awyr agored | Annog oedolion a phlant i chwarae yn yr awyr agored ac amgylcheddau naturiol | 25 |
| | Mynediad at brofiadau awyr agored ystyrlon bob dydd | 23 |
| | Mentrau i gefnogi mynediad ac amser i chwarae yn yr awyr agored | 17 |
| | Annog plant i chwarae gyda chyfoedion yn yr awyr agored ac mewn amgylcheddau naturiol | 16 |
| | Galluogi plant i gael mynediad i fannau gwyrdd | 13 |

| | | |
|---|---|---|
| Strategol: Cyllid a darparu adnoddau | Mynediad cyffredinol i addysg plentyndod cynnar o safon uchel, gyda dysgu seiliedig ar chwarae mewn amgylchedd awyr agored/byd natur | 19 |
| | Cadw cylchoedd chwarae, meithrinfeydd a mannau chwarae ar agor yn ystod cyfnodau pan fydd cyfyngiadau COVID-19 | 18 |
| | Cyllid pellach a mynediad cyffredinol i Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o safon uchel ar hyd y flwyddyn | 15 |
| | Ariannu rhwydweithiau cymorth cymunedol a mentrau chwarae cymunedol lleol | 13 |
| | Ymgyrch yn ymwneud â ‘haf o hwyl’ gyda ffocws ar sicrhau bod plant yn chwarae yn hytrach na chanolbwyntio ar ‘ddal i fyny’ ag addysg ffurfiol dros yr haf | 11 |
| | Rhaid i ysgolion ddarparu tystiolaeth o sut maen nhw’n cefnogi chwarae awyr agored, fel nad oes anghysondeb ar draws ysgolion mewn gwahanol rannau o’r wlad, h.y. Monitro a gwerthuso | 8 |
| | Mwy o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru mewn amgylcheddau chwarae awyr agored mewn cyfleusterau addysg gynnar ac mewn ysgolion | 8 |
| | Lleihau tlodi | 8 |
| | Mae angen i bolisïau a strategaethau sy’n effeithio ar blant gymryd hawliau plant i ystyriaeth lawn | 7 |
| | Cynnal archwiliad o’r ddarpariaeth awyr agored i gefnogi ehangu profiadau | 6 |
| | Gwiriadau iechyd a chlirio ôl-groniadau’r GIG oherwydd COVID-19, i sicrhau bod plant yn gallu cael mynediad i’r gofal angenrheidiol | 6 |

| | | |
|---|---|---|
| | Buddsoddi mewn parciau a mannau gwyrdd | 6 |
| | Mwy o fuddsoddiad mewn ‘Ysgolion Coedwig’ fel rhaglen gyflwyno | 3 |
| | Canolbwyntio’r grant RRRS ar adnoddau i’r ardal y tu allan. Mae’r grant yn ddigonol i brynu cyfarpar mawr awyr agored i bob lleoliad | 2 |
| | Mwy o gyllid i feithrinfeydd | 2 |
| | Lleihau traffig ceir a rhoi cynlluniau cymdogaeth â lefel isel o draffig ar waith, fel bod plant yn gallu chwarae ar y strydoedd | 2 |
| | Dileu rhwystrau i fanteisio ar leoedd Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar a ariannir | 1 |
| | Lonydd beicio diogel | 1 |
| | Trethi ar fwydydd afiach, cymorthdal ar gyfer bwydydd iach | 1 |
| | Dylai Llywodraeth Cymru roi cymorthdal i amgylcheddau seiliedig ar chwarae i agor eu drysau i rieni sydd â phlant iau ar hyd gwyliau’r haf | 1 |

# 9. Cyfeiriadau


Bierman, K.L. a Torres, M., 2016. Promoting the development of executive functions through early education and prevention programs.

Braun V., a Clarke V. 2006. *Using thematic analysis in psychology*. Qualitative Research in Psychology, 3, 77–101.

Bravo G a Potvin L, 1991. Estimating the reliability of continuous measures with Cronbach's alpha or the intraclass correlation coefficient: toward the integration of two traditions. J Clin Epidemiol 44 (4-5)8 (1991), tt, 381-390.

Bryant, D.J., Oo, M. a Damian, A.J., 2020. The rise of adverse childhood experiences during the COVID-19 pandemic. *Psychological Trauma: Theory, Research, Practice, and Policy*, *12*(S1), t.S193.

Bryman A, 2016. *Social Research Methods*, (5ed Argraffiad), Oxford University Press, Rhydychen.

Cohen A, Manion L a Morrison K, 2018. *Research Methods in Education*. Routledge.

Comisiynydd Plant Cymru (2021) Coronafeirws a Fi: Ail arolwg cenedlaethol o farn a phrofiadau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Dodd. H, Westbrook. J., a Lawrence P., (2020) Report One: Findings from 1728 parents/carers of 2-4 year olds on stress, child activities, child worries and need for support. Co-SPYCE.

Estyn. 2021. Gwaith ymgysylltu Diweddariad ar y sector nas cynhelir Tymor yr haf 2021.

Falzarano M a Zipp G.P, 2013. *Seeking Consensus Through the Use of the Delphi Technique in Health Sciences Research*. Journal of Allied Health, Cyfrol 42, Rhif 2, Haf 2013, tt. 99-105(7)

Ghosh, R., Dubey, M.J., Chatterjee, S. a Dubey, S., 2020. Impact of COVID-19 on children: special focus on the psychosocial aspect. *Minerva Pediatrica*, *72*(3), tt.226-235.

Hunnikin, L., Blackburn, J., Butt, S., Ratti, V. a Carabat, A., 2020. Survey of Childcare and Early Years Providers and COVID-19: October 2020. Adran Addysg.

Lloyd, J.E., Li, L. a Hertzman, C., 2010. Early experiences matter: Lasting effect of concentrated disadvantage on children's language and cognitive outcomes. *Health & Place*, *16*(2), tt.371-380.

Melhuish, E. a Gardiner, J., 2018. Study of Early Education and Development (SEED): Study of quality of early years provision in England (revised). *Research brief (Llundain, Adran Addysg)*.

Ofsted (2020) COVID-19 series: briefing on early years, Hydref 2020

Llywodraeth Cymru. 2020. Canlyniadau cyfrifiad ysgolion: yn Ionawr 2020.